CPS

# Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Genethod

2011-2012

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus | 2 |
| Crynodeb gweithredol | 4 |
| Cyflwyniad | 9 |
| Trais Domestig | 16 |
| Aflonyddu | 26 |
| Treisio | 28 |
| Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) | 38 |
| Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod | 41 |
| Cam-drin plant | 44 |
| Masnachu mewn pobl | 49 |
| Puteindra | 51 |
| Pornograffi ac anweddustra | 54 |
| Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal | 57 |
| Rhestr Termau | 61 |
| Geirfa acronymau | 68 |

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Mae'n dda gennyf adrodd i athreuliad dros y flwyddyn ddiwethaf, am y tro cyntaf erioed, leihau ar draws tair prif ffrwd Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) - trais domestig, treisio a throseddau rhywiol. Rwy'n arbennig o falch o'r cyflawniad hwn am ei fod wedi ei sicrhau yn erbyn cefndir o leihad yn y gweithlu ac ailstrwythuro Ardaloedd CPS. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gostyngodd athreuliad trais domestig o 1.5%, gan gyflawni dros 73% o ddeilliannau llwyddiannus a gostyngodd athreuliad treisio o 4% gan gyflawni 62.5% o ddeilliannau llwyddiannus.

Roedd 2011-12 yn flwyddyn o newid a gwelliant yn erlyniad achosion VAWG. Mae fy ymrwymiad, ac ymrwymiad Swyddogion y Gyfraith, wedi bod i sicrhau blaenoriaethu parhaus ar erlyniadau VAWG. I'r perwyl hwnnw, yn rhan o fonitro Safonau Ansawdd Craidd, sefydlwyd cynllun Sicrwydd VAWG yn 2011, ynghyd ag Ardaloedd lleol yn adrodd yn uniongyrchol i mi ar eu perfformiad ar draws troseddau VAWG, sydd yn amlwg wedi talu ar ei ganfed.

Yn ogystal, mae pob Ardal nawr wedi creu Paneli Craffu a Chynhwysiant Lleol (LSIPau) ble mae grwpiau arbenigwyr lleol yn craffu ar ein herlyniad o ystod o achosion, yn cynnwys VAWG. Mae rhai Ardaloedd wedi mynd i'r afael ag achosion cymhleth megis priodi dan orfod a thrais seiliedig ar urddas, ac mae eraill wedi canolbwyntio ar faterion lleol allweddol, megis trais domestig mewn cymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Rydym hefyd wedi dathlu'r prif ffrydio lleol ar ein Strategaeth VAWG (2008-2011) eleni. Yn ogystal â'r gwelliannau yn ein perfformiad, a gyflawnwyd yn ystod oes y strategaeth hon, rydym hefyd wedi gweld effeithiau gwirioneddol ar lefel leol wrth i ni ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o droseddau VAWG. Mae rhai enghreifftiau wedi eu cynnwys yng nghorff yr adroddiad - dechreuom nodi ac erlyn achosion meithrin perthynas amhriodol yn llwyddiannus, mynd i'r afael ag agweddau o gam-drin plant, paedoffilia, puteindra plant; masnachu mewn pobl o fewn y wlad a threisio; mae gweithio gyda gangiau wedi mynd i'r afael â threisio a chamdriniaeth rywiol o ferched; erlynwyd achosion priodi dan orfod yn fwy llwyddiannus ac rydym wedi datblygu ein gwaith ar stelcio, yn cynnwys seiber stelcio, ymhellach.

Deliwyd â rhai o'r materion mwyaf cymhleth wrth i'r strategaeth VAWG eu mewnosod – megis erlyn achosion yn ymwneud â threisio neu ymosodiad rhywiol ar weithwyr rhyw neu ddioddefwyr bregus; trais domestig yn ymwneud â dioddefwyr ifanc ac amlygiad o VAWG ar draws gwahanol gymunedau.

Rydym yn parhau gyda'n hymroddiad yn 2012-13 ar faterion VAWG. Yn y flwyddyn i ddod, ein nod fydd taclo rhai o'r ffrydiau anoddaf o briodas dan orfod, trais seiliedig ar urddas, paratoi i bwrpas rhyw, llurgunio organau rhywiol menywod, a stelcio yn ogystal â chynnal momentwm yn ein herlyniadau o drais domestig, treisio a throseddau rhywiol.

Hoffwn ddiolch i'r grwpiau sector gwirfoddol lleol a chenedlaethol sydd wedi'n cynghori, yr Uned Cydraddoldeb ac Anabledd sydd wedi goruchwylio cyflawniad y Strategaeth VAWG, Prif Erlynyddion y Goron sydd wedi sefydlu strwythurau llywodraethu i oruchwylio cyflawniad strategol a Chydlynwyr VAWG lleol sydd wedi arwain gweithrediad y gwaith hwn.

**Keir Starmer QC**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**
**Medi 2012**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ddadansoddiad o'r materion erlyn allweddol ym mhob ffrwd VAWG – trais domestig, treisio, troseddau rhywiol, masnachu mewn pobl, puteindra, priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd, llurgunio organau rhywiol menywod, cam-drin plant a phornograffi. Defnyddir nifer o astudiaethau achos i arddangos arfer da o Ardaloedd.

Yn unol â pholisi llywodraethol, rydym yn cyhoeddi'r data gwaelodol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau. Gellir dod o hyd i'r data sylfaenol ar gyfer yr adroddiad hwn ar wefan y CPS, yn yr adran Cyhoeddiadau dan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)

Mae VAWG yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r CPS a'r llywodraeth fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Traws-lywodraeth VAWG, a oruchwylir gan y Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

Ers cyflwyno'r system Sicrwydd VAWG yn Ionawr 2011, rydym wedi gweld lleihad o 1.5%[1] mewn athreuliad VAWG, ble mae'r athreuliad treisio wedi lleihau o 4%. Gwellodd deg o'r 13 o Ardaloedd athreuliad trais domestig, gwellodd deg athreuliad treisio a gwellodd saith y ddau[2].

Cefnogir Ardaloedd gan gydlynwyr VAWG lleol, sy'n darparu cyfeiriad strategol a Sicrwydd VAWG ac yn gweithio gyda grwpiau cymuned lleol trwy Baneli Craffu a Chynhwysiant Lleol (LSIPau). Mae asesiad o LSIPau ac ymgysylltiad cymunedol wedi darparu ystod o arfer da wedi ei rannu ar draws Ardaloedd:

- Deliodd yr holl LSIPau Ardal â VAWG yn 2011-12; deliodd rhai ag achosion trais seiliedig ar urddas (HBV) ac eraill â materion ethnigrwydd mewn achosion VAWG;
- Cynhaliwyd ystod o gynadleddau a chyfarfodydd VAWG gyda dioddefwyr yn lleol;
- Datblygwyd bwletinau lleol VAWG;
- Trefnwyd arolygon boddhad ymysg dioddefwyr trais domestig; a
- Deliodd gwaith gyda rhaglenni troseddwyr menywod â chamdriniaeth flaenorol.

## Trais domestig

- Rhwng 2005-6 a 2011-12 mae cyfraddau athreuliad wedi gostwng wrth i'r gyfran o ddeilliannau llwyddiannus godi o 60% i 73% dros y cyfnod chwe blynedd hwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 1.5% dros y flwyddyn ers 2010-11;
- Gwellodd deg o Ardaloedd eu deilliannau erlyn yn y flwyddyn ddiwethaf;

[1] Yn y Crynodeb Gweithredol rydym wedi defnyddio '%' yn hytrach na 'phwyntiau canrannol' ar gyfer newidiadau mewn data % i hwyluso darllen - yn y testun rydym yn cyfeirio at bwyntiau canrannol.
[2] Mae unrhyw gyfeiriad i'r nifer o Ardaloedd yn gwella eu hathreuliad, neu ddeilliannau erlyn, yn 2011-12 yn seiliedig ar Ch4 2011-12 gyda Ch4 2010-11, yn seiliedig ar ddata o'r broses Sicrwydd VAWG, oni bai y nodir fel arall.

- Gostyngodd y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd dros y flwyddyn ddiwethaf o 3.6% i 79,268; fodd bynnag, mae angen edrych ar hyn yn erbyn gostyngiad o 6.5% yn y nifer o achosion ar draws y CPS;
- Mae’r rhan fwyaf o Ardaloedd[3] hefyd wedi cynyddu’r gyfran o achosion a erlynwyd, o’r rhai a anfonwyd ymlaen i'r CPS gan yr heddlu;
- Cynyddodd mwy na dau draean o’r Ardaloedd[4] eu llwyth achosion hefyd fel canran o’r cyfanswm achosion Ardal erbyn Ch4 2011-12;
- Cododd y gyfran o bledion euog o 2.5% yn ystod y flwyddyn, i 67.5%; yn atebol am 92% o gyfanswm deilliannau llwyddiannus;
- Mae astudiaethau achos o nifer o Ardaloedd CPS yn arddangos sut mae Ardaloedd, yn arbennig y rhai gyda’r perfformiad uchaf, wedi gwella deilliannau erlyn - hyfforddiant lleol, strwythurau llywodraethu da, Llysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVC), cymryd Datganiadau Personol Dioddefwyr, arolygon dioddefwyr, achosion aflonyddu a gwaith gyda throseddwyr benywaidd.

## Aflonyddu

- Dynododd data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2011 y cyhoeddwyd 17,765 o orchmynion ataliol yn y flwyddyn galendr 2011 ar erlyniad a 1,358 ar ryddfarn[5];
- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 9,345 o droseddau aflonyddu yn 2011-12; gostyngiad o 10,238 yn 2010-11;
- O’r rhain, roedd 5,766 (62%) yn ymwneud â thrais domestig – lleihad o 7.7% o 6,245 yn y flwyddyn flaenorol;
- Fodd bynnag, cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 8,733 o doriadau troseddau gorchymyn ataliol, cynnydd o 47% o 5,922 yn 2010-11;
- Roedd 6,365 (73% o’r holl doriadau gorchmynion ataliol) yn ymwneud â thrais domestig; cynnydd o 57% o 4,055 yn 2010-11;
- O’r 286 o’r toriadau o orchmynion ataliol a wnaed ar ryddfarn, roedd 202 (71%) mewn achosion trais domestig; mwy na dwbl y rhai a erlynwyd yn 2010-11;
- Dechreuodd 5,323 o doriadau gorchmynion peidio aflonyddu erlyniad, o gymharu â 5,281 yn y flwyddyn flaenorol;
- Bwriedir cael hyfforddiant ar stelcio, yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar stelcio yn 2012-13.

---

[3] Cynyddodd 12 o Ardaloedd eu cymhareb Cyhuddo i Ddim Gweithredu Pellach.
[4] Cynyddodd naw o Ardaloedd eu llwyth achos trais domestig fel canran o’r cyfanswm llwyth achos Ardal.
[5] Darperir cafeatau ar gyfer y data hwn yn adran aflonyddu’r adroddiad

## Treisio

- Mae'r ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dynodi ym mlwyddyn galendr 2011 y cafwyd 2,873 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd[6], wedi eu herlyn am dreisio yn y llysoedd ynadon, gyda 2,807 wedi eu traddodi i Lys y Goron ar gyfer achos. Yn 2011 cafodd 1,153 o droseddwyr euogfarn o dreisio, gan arwain at gymhareb erlyniad i euogfarn yn 2011 o 40% – cynnydd o 34% o 2010;
- Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion a gyhuddwyd a'u llumanu fel treisio o'r cychwyn, ond hefyd achosion ble y cafwyd euogfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar euogfarnau achosion a gyhuddwyd ac a gafwyd yn euog o dreisio. Gosodir y faner o gychwyn yr achos; bydd y faner yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiad o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny. Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i osod cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny ble'r oedd yr euogfarn derfynol am dreisio.
- Ers 2007-08[7], mae data rheoli perfformiad y CPS wedi arddangos cynnydd o 10% yn y nifer o erlyniadau ac 19% yn y nifer o ddiffynyddion a gafwyd yn euog; mae'r nifer o ddiffynyddion a erlynwyd wedi lleihau ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf i 3,864;
- Fodd bynnag, yn 2011-12, mae'r rhan fwyaf o Ardaloedd[8] wedi cynyddu'r gyfran o achosion a erlynwyd gan y CPS yn dilyn cyfeiriad gan yr heddlu;
- Mae dros hanner yr Ardaloedd[9] hefyd wedi cynyddu eu llwyth achos fel cyfran o'r holl droseddau ditiadwy yn unig;
- Cynyddodd ganlyniadau llwyddiannus y CPS[10] o 4% yn y flwyddyn ddiwethaf i 62.5% – y gyfradd euogfarn CPS uchaf i'w gofnodi am dreisio ers dechrau cofnodi;
- Gwellodd deg o Ardaloedd eu ditiad yn y flwyddyn ddiwethaf, tri o dros 10%;
- Cynyddodd pledion euog hyd yn oed yn fwy – o 4.2% - o 35.7% yn 2010-11 i 39.9% yn 2011-12. O'r holl ddeilliannau llwyddiannus, roedd 64% o ganlyniad i bledion euog, cynnydd o 3% o 61% yn y flwyddyn flaenorol;
- Gostyngodd deilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr o 13.9% i 12% yn 2011-12;
- Aseswyd sampl o tua 25% o achosion treisio ym mhob Ardal yn fanylach yn rhan o'r system Sicrwydd VAWG yn nodi arferion da a gwelliannau lleol ddwywaith y flwyddyn;
- Erbyn Chwefror 2012, hyfforddwyd 849 o erlynyddion arbenigol yn yr ymagwedd seiliedig ar deilyngdod i ddelio ag euogfarnau treisio;

---

[6] Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Pan ystyrir mwy nag un drosedd mewn achos llys neu ddigwyddiad rhybuddio, tybir mai'r drosedd a fyddai/ a wnaeth ddenu'r deilliant dedfrydu mwyaf llym yw'r Brif drosedd ac mae'r troseddau eraill yr ymdrinnir â nhw yn yr achos hwnnw'n cael eu hanwybyddu. Os yw dwy drosedd yn yr un achos yn denu'r un ddedfryd, y drosedd sydd â'r ddedfryd statudol fwyaf a dybir yw'r 'Brif drosedd'.

[7] Cychwynnodd monitro'r CPS o achosion treisio yn hwyrach na thrais domestig.

[8] Cynyddodd 10 o Ardaloedd eu cymhareb Cyhuddo i Ddim Gweithredu Pellach

[9] Cynyddodd wyth o Ardaloedd eu llwyth achos treisio fel canran o'r holl droseddau ditiadwy yn unig

[10] Deilliannau o gyhuddo i euogfarn.

- Cyhoeddwyd canllaw ar erlyn rhwystro llwybr cyfiawnder mewn achosion yn ymwneud ag achwynwyr achosion treisio ac/neu drais domestig yng Ngorffennaf 2011; cyfeiriwyd yr holl achosion posibl i'r DPP ar gyfer penderfyniadau am un flwyddyn;
- Darperir nifer o astudiaethau achos yn arddangos gwelliannau mewn erlyniadau trais trwy'r ymagwedd seiliedig ar rinweddau; cyflwyno Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO); hyder dioddefwyr; achosion ieuenctid; hyfforddiant amlasiantaethol a chefnogaeth leol i ddioddefwyr trwy Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs).

## Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

- Erlynwyd 8,334 o ddiffynyddion yn 2011-12 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio;
- Cynyddodd y gyfran o ddeilliannau llwyddiannus i 75.7%, gyda chynnydd o bron i 3% mewn pledion euog i 63% (83% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus);

## Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod

- Yn 2011-12, erlynwyd 42 [11] o ddiffynyddion am droseddau yn ymwneud â phriodas dan orfod; gyda 55% yn llwyddiannus, cynnydd o 6% 0 2010-11;
- Erlynwyd 172 o ddiffynyddion am droseddau yn ymwneud â thrais seiliedig ar urddas (HBV), gyda 50% yn cael euogfarn, lleihad o 2% o'r flwyddyn ddiwethaf;
- Mae datblygiad deunydd hyfforddi wedi ei gynllunio ar gyfer 2012-13, yn unol â deddfwriaeth priodas dan orfod newydd;
- Cyflawnodd Ardaloedd ystod o fentrau i wella erlyniadau, yn cynnwys paneli craffu HBV; gweithio gydag ysgolion a'r sector gwirfoddol; cynnal cynadleddau lleol a datblygu protocolau gyda Byrddau Diogelu Lleol;
- Cyhoeddwyd Canllaw'r CPS ar Lurgunio Organau Rhywiol Menywod ym Medi 2011.

## Cam-drin plant

- Yn 2011-12 cafwyd gostyngiad yn y nifer o erlyniadau troseddau dynladdiad camdriniaeth plant[12], o 27 i 17, gyda dros 88% o ddeilliannau llwyddiannus;
- Roedd lleihad yn y nifer o droseddau yn erbyn y person (o 2,953 i 2,569) ac erlyniadau troseddau rhywiol (o 4,794 i 4,655);
- Gostyngodd y deilliannau llwyddiannus ar gyfer troseddau yn erbyn y person ychydig o 74% i 71.4%, gyda chynnydd bychan ar gyfer 74.1% to 75.8%;

---

[11] Mae diffynyddion mewn achosion priodas dan orfod ac urddas yn cael eu llumanu i alluogi asesiad o'r deilliannau. Fel gydag unrhyw system monitro newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei defnydd cywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus.
[12] Gweler y rhestr termau am ddiffiniadau.

- Mae'r CPS yn gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol, a llywodraeth, gyda'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) a grwpiau gwirfoddol i fynd i'r afael ag erlyniadau camdriniaeth plant a chamfanteisio rhywiol ar blant;
- Mae astudiaethau achos o Ardaloedd yn arddangos erlyniad o achosion paratoi a gangiau.

## Masnachu mewn pobl a phuteindra

- Mae'r CPS nawr yn llumanu a monitro pob achos o fasnachu[13], cofnodwyd 142 o ddiffynyddion yn 2011-12, cynnydd o 103 yn 2010-11;
- Cyhoeddwyd polisi a chanllaw cyfreithiol ar gamfanteisio puteindra ym Mehefin 2011;
- Mae astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau o ISVAs arbenigol yn cefnogi gweithwyr rhyw a gwaith ar draws masnachu, puteindra a chamfanteisio rhywiol ar blant.

## Pornograffi

- Yn 2011-12 cafwyd gostyngiad bychan mewn erlyniadau am ddelweddau camdriniaeth plant o 21,415 i 19,663, yn cynnwys cychwyn erlyniadau ar gyfer 15,599 o droseddau o gamfanteisio ar blant trwy luniau; ond cynnydd mewn erlyniadau am feddiant o ddelwedd waharddedig o blentyn o 21 i 179;
- Roedd cynnydd mewn erlyniadau troseddau anweddustra o 5,415 i 5,801 yn ymwneud â'r defnydd o dechnoleg a'r rhyngrwyd;
- Bwriedir cael hyfforddiant ar seiber stelcio i ddelio â'r cynnydd yn yr achosion hyn;
- Mae astudiaethau achos yn arddangos erlyniadau o gamfanteisio rhywiol ar blant trwy luniau, achosion rhyngwladol a seiber droseddau.

[13] Gweler y rhestr termau am y troseddau llumanu. Fel gydag unrhyw system fonitro newydd, mae angen amser I fewnosod ei ddefnydd cywir. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus.

# Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Troseddau yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) hwn gan y CPS y pumed rhifyn i'w gyhoeddi gan y CPS.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n trafod amrediad o feysydd VAWG:

- trais domestig
- treisio a throseddau rhywiol
- masnachu mewn pobl, â ffocws ar fasnachu i ddibenion camfanteisio rhywiol
- puteindra,
- priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod
- cam-drin plant
- pornograffi.

Mae'r adroddiad yn darparu data a sylwebaeth mewn adrannau ar wahân ar bob un o'r meysydd VAWG, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos ac arfer dda. Mae'r prif faterion a gafodd eu dynodi yn 2011-12 wedi'u hamlygu ym mhob adran ac yn gallu newid yn ôl meysydd. Mae'r CPS yn casglu data[14] i gynorthwyo yn rheolaeth effeithiol o'i swyddogaethau erlyn. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cael eu cyfrif yn ystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007[15].

Mae proffiliau cydraddoldeb ddiffynyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn derbyn sylw ac adroddir yn ôl arnynt yn yr adroddiad hwn. Adroddir data ar ddioddefwyr ble mae ar gael ac mae'n dal dan ddatblygiad pellach.

## Cynlluniau trawslywodraeth

Ym Mawrth 2011 fe flaenoriaethodd y llywodraeth waith ar VAWG trwy gyhoeddi cynllun gweithredu VAWG trawslywodraeth, yn cynnwys cynlluniau CPS ar gyfer 2011-12. Goruchwylir gweithrediad y gweithredoedd hyn gan y Grŵp Rhyngweinidogol VAWG.

## VAWG o fewn y CPS

Daeth strategaeth VAWG 2008-11 y CPS i ben yn 2010-11 ac yn ei le cafwyd ymagwedd prif ffrwd, a amlygwyd gan fwy o berchnogaeth ac atebolrwydd o fewn Ardaloedd. Cyhoeddwyd adroddiad ar wahân yng Ngorffennaf 2012 oedd yn adolygu effaith y strategaeth. Yn unol â'n hymagwedd prif ffrwd newydd. Parhaodd gwaith VAWG i fod yn flaenoriaeth o fewn cynlluniau busnes Ardal y CPS.

---

[14] Casglwyd data ar droseddau VAWG o System Rheoli Achosion (CMS) y CPS a'r System Gwybodaeth Rheoli (MIS) cysylltiedig sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn amodol i wallau posibl gyda chofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro ac yn amodol I newid wrth ragor o wybodaeth gan ei gofnodi gan y CPS

[15] Cynhelir yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddau a phlismona gan y Swyddfa Gartref ac mae'r ystadegau swyddogol yn ymwneud â dedfrydu, achosion llysoedd troseddol, dod â throseddwyr i gyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth wedi eu cynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ar lefel genedlaethol, parhaodd Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) VAWG, yn cynnwys grwpiau arbenigwyr VAWG allweddol, i gynghori tîm VAWG y CPS fel is-grŵp o'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ehangach.
Parhaodd yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i ddal cyfrifoldeb cyffredinol am yr agenda VAWG yn y CPS ac mae Cyfarwyddfa Strategaeth a Pholisi'r CPS yn cefnogi'r agenda VAWG trwy ddarparu arweiniad polisi amlwg ar gyfer trais domestig, treisio, priodas dan orfod, FGM a thrais seiliedig ar urddas, masnachu mewn pobl, puteindra, cam-drin plant a throseddau technoleg ddiweddaraf.

## Perfformiad VAWG

Yn 2011-12 parhaodd Ardaloedd CPS i fonitro'u perfformiad yn defnyddio mesur dilysu VAWG oedd yn asesu deilliannau aflwyddiannus ar gyfer trais domestig, troseddau rhywiol a threisio, yn ogystal â'r nifer o erlyniadau. Yn Ionawr 2011 gwelwyd cyflwyniad system Sicrwydd VAWG ansoddol penodol ble roedd Ardaloedd yn darparu sicrwydd o'u perfformiad VAWG cyffredinol, yn cynnwys asesiad manwl o drais domestig, treisio ac erlyniadau troseddau rhywiol, ar sail chwe-misol i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP). Mae Ardaloedd yn derbyn adborth ar eu hadroddiadau sicrwydd gan y tîm VAWG a'r DPP ac mae'n ofynnol iddynt lunio tri phwynt gweithredu yn dilyn pob asesiad chwemisol. Mae'r broses sicrwydd hefyd yn cynnwys gofyniad i gynnal asesiad manylach o tua 25% o'r achosion treisio. Adroddir ar Fonitro Safon Ansawdd Craidd (CQSM) treisio a sicrwydd achosion treisio yn adran treisio'r adroddiad hwn.

Yn 2011-12, erlynwyd 91,466 o ddiffynyddion am droseddau VAWG – mae hyn yn cynrychioli gostyngiad bychan o 4% yn y nifer o achosion VAWG[16] a erlynwyd, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd yna hefyd ostyngiad bychan o 2% yn y nifer o erlyniadau llwyddiannus gyda 66,860 o ddiffynyddion wedi eu cael yn euog. Fodd bynnag, dylid edrych ar y gostyngiadau hyn yn erbyn y lleihad mewn nifer ar draws yr holl achosion CPS a erlynwyd o 6.5%. Yn ogystal, cyhuddodd Ardaloedd fwy o'r achosion VAWG a gyfeiriwyd atynt gan yr Heddlu[17] ac roedd yna gynnydd bychan mewn llwyth achosion VAWG[18].


Cynyddodd y gyfran o erlyniadau llwyddiannus i 73%, gan gyflawni'r cyfraddau athreuliad isaf erioed ar gofnod. Gwellodd deg o'r 13 o Ardaloedd athreuliad trais domestig, a gwellodd deg athreuliad treisio (gyda saith yn gwella'r ddau)[19].

Roedd 90% o'r deilliannau llwyddiannus o ganlyniad i bledion euog. Mae mwy o bledion euog yn golygu y gellir dod ag achosion i'r llys yn gyflymach ac ar gost sylweddol is, gan eu bod yn galw am lai o waith paratoi. Mae hyn yn fanteisiol i'r dioddefydd gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif (86.7%) o droseddau sydd wedi eu grwpio dan VAWG i ddibenion rheoli perfformiad yn drais domestig gyda threisio ar 4.2% a throseddau rhywiol ac eithrio treisio, ar 9.1%.

[16] Yn cwmpasu trais domestig, treisio a throseddau rhywiol, ac eithrio treisio.
[17] O ddata Sicrwydd VAWG, cynyddodd cymhareb Cyhuddo VAWG i Ddim Gweithredu Pellach o 2.2 yn Ch4 2010-11 i 2.6 yn Ch4 2011-12.
[18] O ddata Sicrwydd VAWG, roedd troseddau VAWG yn 10.3% o gyfanswm llwyth achosion y CPS yn Ch4 2011-12 o gymharu â 10.1% yn Ch4 2010-11.
[19] Gwellodd deg o Ardaloedd athreuliad troseddau rhywiol hefyd (gydag wyth yn gwella treisio a throseddau rhywiol).

**Graff 1: Cyfraddau euogfarnau ar gyfer Troseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched o 2007-08 i 2011-12**.




## Perfformiad ardal

Mae'r tabl ar dudalen 55 yn darparu data erlyniadau VAWG yn ôl Ardal. Yn 2011/-12, roedd yr Ardaloedd oedd yn perfformio'n dda parthed cyfraddau athreuliad ledled holl droseddau VAWG h.y. y rhai gyda'r nifer uchaf o achosion llwyddiannus, fel a ganlyn:

**Tabl 1: Holl erlyniadau VAWG yn ôl canlyniad, yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau yn erbyn ffigurau cenedlaethol**

| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cenedlaethol | 66,860 | 73.1% | 24,606 | 26.9% | 91,466 |
| Dwyrain Lloegr | 5,110 | 81.8% | 1,134 | 18.2% | 6,244 |
| De Orllewin Lloegr | 4,011 | 76.5% | 1,231 | 23.5% | 5,242 |
| Glannau Mersi a Swydd Gaer | 2,666 | 76.4% | 823 | 23.6% | 3,489 |

Mae Dwyrain Lloegr wedi gwella'n gyson ar draws erlyniadau trais domestig, treisio a throseddau rhywiol. Yr Ardaloedd oedd yn erlyn y nifer uchaf o achosion VAWG oedd Gogledd Orllewin Lloegr 13,580 (74.2% yn llwyddiannus); Llundain 12,205 (63.1% yn llwyddiannus) a Swydd Efrog a Glannau Humber 8,816 (73.5% yn llwyddiannus). Mae gan Ogledd Orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber ill dau gyfraddau euogfarn sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 73.1%

**Arfer da VAWG**

Mae Grŵp VAWG Rhanbarthol Dwyrain Lloegr yn uno holl arweinwyr yr heddlu a'r CPS a chydlynwyr o'r rhanbarthau yn rheolaidd i edrych ar faterion perfformiad, problemau penodol, rhannu arfer da a chyflwyniadau ar faterion materol. Mae Grwpiau Strategol yn eu lle, fel y mae cysylltiadau cryf gyda'r holl Brif Gwnstabliaid, ledled yr Ardal. Mae dadansoddiad o ddata yn nodi tueddiadau ac fe'i defnyddir i ysgogi gwelliannau. Rhennir data'r heddlu a'r CPS. Mae ffocws ar ansawdd, perthynas rhyngasiantaethol cryf, ac arbenigedd gweithwyr achos a chyfreithwyr wedi gwneud gwahaniaeth i'w deilliannau yn 2011-12 gan gyrraedd dros 80% o ddeilliannau llwyddiannus. Rhennir gwybodaeth ar achosion sydd wedi methu yn rheolaidd a'u trafod gyda'r syniad o edrych i'r dyfodol.

## Materion cydraddoldeb

**Rhywedd**
Roedd y data rhywedd ar gyfer 2011-12 yr un peth ag yn 2010-11. Roedd 94% o ddiffynyddion VAWG yn ddynion. O'r rhai ble cofnodwyd eu rhywedd[20], roedd y gyfran fenywaidd o ddioddefwyr yn 84%.

**Ethnigrwydd**
Yn 2011-12, dosbarthwyd 79% o ddiffynyddion troseddau VAWG[21] fel Gwyn, gan nodi fod 74% yn Wyn Prydeinig (tebyg i'r flwyddyn flaenorol). 6% o ddiffynyddion a ddynodwyd yn Asiaidd, a 6% pellach fel Du, gyda ffigyrau tebyg y flwyddyn flaenorol[22]. Ni chofnodwyd ethnigrwydd dros hanner dioddefwyr, felly ni adroddwyd ar y data hwn yn yr adroddiad hwn.

**Oed**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (68%) a 18-24 (25%). Roedd yn bryder i nodi bod 29% o ddiffynyddion (26,236) dan 24 oed, gyda 3,350 (ychydig dan 4%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 264 (0.3%) yn 10-13 oed. Er bod adrodd ar oed dioddefwyr wedi gwella hyd at 77%, nid yw'n ddigon cadarn o hyd i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Gwaith VAWG cenedlaethol

Taclwyd ystod o faterion VAWG ledled y llywodraeth yn ystod 2011-12. Bwydodd y CPS i mewn i'r ymgynghoriad ar y diffiniad o drais domestig, deddfwriaeth priodas dan orfod a deddfwriaeth stelcio. Yng ngwanwyn 2012, cyhoeddwyd cyflwyno deddfwriaeth newydd ar stelcio a phriodas dan orfod; bydd gweithrediad y deddfau newydd hyn yn digwydd yn 2012-13.

---

[20] Cofnodwyd 86% o rywedd dioddefwyr yn 2011-12.
[21] Mae data ethnigrwydd ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau CJS cytunedig ar gyfer y categorïau ethnig 16+1.
[22] Ni ddatganodd 2.5% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ychydig dros 4% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.

Cafwyd rhai newidiadau mawr yn y gwaith ar erlyniadau VAWG yn ystod 2011-12 yn cynnwys effaith prif ffrydio'r strategaeth VAWG tair blynedd (2008-2011). Mae yna well dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y gwahanol fathau o droseddau VAWG. Mae rhai enghreifftiau wedi eu cynnwys yng nghorff yr adroddiad - nodwyd ac erlynwyd achosion meithrin perthynas amhriodol yn llwyddiannus, mynd i'r afael ag agweddau o gam-drin plant, paedoffilia, puteindra plant; masnachu mewn pobl yn y wlad a threisio; ddelio gwaith gyda gangiau â threisio a chamdriniaeth rywiol o ferched sy'n aelodau o gangiau; erlynwyd achosion priodi dan orfod yn fwy llwyddiannus ac rydym wedi datblygu ein gwaith ar stelcio, yn cynnwys seiber stelcio, ymhellach. Mae erlynyddion yn symud gyda'r amserau ac yn cydnabod pwysigrwydd delio â throseddau seiber, ble mae troseddau VAWG yn cynnwys camdriniaeth o fenywod a merched trwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a'r rhyngrwyd.

Deliwyd â rhai o'r materion mwyaf cymhleth wrth i'r strategaeth VAWG eu mewnosod – megis erlyn achosion yn ymwneud â threisio neu ymosodiad rhywiol o weithwyr rhyw neu ddioddefwyr bregus; trais domestig yn ymwneud â dioddefwyr ifanc ac amlygiad o VAWG ar draws gwahanol gymunedau.

## Canllaw cyfreithiol

Yn 2011-12, diweddarwyd yr holl ganllaw cyfreithiol ar ffrydiau VAWG i sicrhau cynhwysiant yr wybodaeth ddiweddaraf, yn arbennig parthed deddfwriaeth.

## Materion dioddefwyr

Deliwyd â materion dioddefwyr ym mhob adran o'r adroddiad. Yn ogystal, mae nifer o faterion dioddefwyr cyffredinol o bwysigrwydd cyffredinol yn erlyniad achosion VAWG.

**Egluro ein Gwasanaeth a Chanllaw**
Eleni mae'r CPS wedi parhau i ddatblygu gwaith adolygu ein hymroddiadau i ddioddefwyr a thystion. Cyflawnwyd peilot i ganolbwyntio ar gefnogaeth o Unedau Gofal Dioddefwyr (VCU) i ddioddefwyr a thystion gyda'r angen mwyaf, yn cynnwys dioddefwyr VAWG. Mae yna gynlluniau i gyflwyno'r cynllun yn genedlaethol erbyn Ebrill 2013.

Mae dogfen yn cael ei chwblhau sy'n sefydlu'r gwasanaeth y gall dioddefwyr a thystion ei ddisgwyl gan y CPS. Mae canllaw i erlynyddion ar faterion dioddefwyr a thystion hefyd wedi gwella. Bydd y ddwy ddogfen hyn yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2012.

**Mesurau Arbennig**
Cyflawnodd Cyfarwyddfa Strategaeth a Pholisi'r CPS brosiect ymchwil i'r defnydd o fesurau arbennig. Bydd casgliadau'r adroddiad yn cael eu dosbarthu yn haf 2012 gan gyflwyno ystyriaeth o unrhyw weithredu ar argymhellion.

**Delio ag Anghenion Dioddefwyr a Thystion Ifanc**
Yn Chwefror 2012 cyhoeddodd Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) eu '*Joint Inspection Report on the Experience of Young Victims and Witnesses in the Criminal Justice System*' (adroddiad 2012). Mae'r gweithredu sydd ei angen i ddelio â'r materion a amlygwyd dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

**Gwasanaethau i deuluoedd mewn galar**
Yn Rhagfyr 2011, estynnwyd y polisi *'Achosion Dynladdiad – Gwasanaeth y CPS i Deuluoedd mewn Galar'* i gynnwys achosion yn ymwneud â marwolaeth a glywyd yn y llys ynadon, achosion ble cafwyd rhyddfarn, achosion oedd yn gymwys i'r Llys Apêl ac achosion 'erlyniad dwbl'. Cynigir cyfarfodydd gyda'r erlynydd i deuluoedd mewn galar yn ystod camau pwysig o'r erlyniad i esbonio cynnydd.

**Datblygu Safonau Rhyngwladol**
Ar hyn o bryd mae'r CPS yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol, y Weinyddiaeth Amddiffyn a Thrysorlys EM, i gytuno ar gynigion ar gyfer Cyfarwyddeb Undeb Ewropeaidd (UE) a fydd yn darparu dioddefwyr troseddau gydag isafswm troseddau ar eu hawliau, cefnogaeth ac amddiffyniad o fewn yr UE.

Rhagwelir y ceir cytundeb ar y Gyfarwyddeb yn ystod 2012-2013 ac mae'n debygol o ddod i rym yn 2014.

## Gwaith Ardal VAWG

Yn 2011-12, arweiniodd Cydlynwyr VAWG Ardal gyflawniad erlyniadau VAWG yn lleol a gweithio gyda Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth VAWG (EDCEMau) i redeg Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPau). Mae gan yr holl Ardaloedd baneli yn delio â materion VAWG – yn bennaf yn delio â thrais domestig ac erlyniadau treisio – ond mae rhai hefyd yn canolbwyntio ar drais seiliedig ar urddas a materion ethnigrwydd VAWG.

## Arfer da

Darparodd gwaith gyda grwpiau cymunedol trwy LSIPau ac ymgysylltiad cymunedol ystod o arfer da wedi ei rannu ar draws Ardaloedd. Mae Safon Ansawdd Craidd 12 yn ymwneud ag ymgysylltiad cymunedol ac mae wedi ei fonitro ar draws Ardaloedd yn flynyddol. Ymysg enghreifftiau o arfer da mae:

- Bu LSIP Dwyrain Canolbarth Lloegr yn craffu yn benodol ar achosion trais seiliedig ar urddas (HBV); craffodd De Orllewin Lloegr ar faterion ethnigrwydd mewn achosion VAWG;
- Cynhaliwyd ystod o gynadleddau VAWG yn lleol yn cynnwys cynhadledd trais domestig ar gyfer cymunedau anodd eu cyrraedd yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, digwyddiad ar Gangiau a Merched yn Llundain; cynadleddau ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas yng Ngogledd Orllewin a De Orllewin Lloegr; sgyrsiau Trais Domestig mewn ysgolion yng Nghymru; gweithdai trais seiliedig ar urddas i fyfyrwyr a grwpiau lleol yn y Tafwys a Chiltern;
- Datblygu bwletinau VAWG lleol, fel yng Ngogledd Orllewin Lloegr;
- Arolygon boddhad gyda dioddefwyr trais domestig yn Ne Orllewin Lloegr a Swydd Efrog a'r Humber;


- Cyfarfodydd gyda dioddefwyr i wella ymwybyddiaeth o erlynyddion - cyfarfu erlynyddion o Ogledd Ddwyrain Lloegr gyda gweithwyr rhyw yn dilyn achosion lleol o gamdriniaeth; cyfarfu erlynyddion o Ogledd Orllewin Lloegr gyda dioddefwyr lleiafrifoedd duon ac ethnig a dioddefwyr priodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas; cyfarfu erlynyddion o Dde Ddwyrain Lloegr â phanel o oroeswyr treisio;
- Gwaith gyda rhaglenni troseddwyr menywod yn delio â chamdriniaeth flaenorol, fel yng Nglannau Mersi a Swydd Gaer a De Orllewin Lloegr.

# Trais domestig

Yn 2011-12, dynododd y patrwm cyffredinol o erlyniadau trais domestig y cyhuddwyd, erlynwyd a chafwyd cyfran uwch o achosion yn euog, gan atal llai o achosion a mwy o ddiffynyddion yn pledio'n euog.

Mae Graff 2 yn dangos y tuedd am i fyny dros y saith mlynedd diwethaf, gyda chynnydd yn 2011-12 yn dilyn gwastadedd o 2008-09 i 2010-11.

**Graff 2: Cyfraddau euogfarn trais domestig 2005-06 i 2011-12**




Yn 2011-12, cafodd dros 95,000 o achosion eu hanfon ymlaen at y CPS gan yr heddlu ar gyfer penderfyniadau cyhuddo.[23] o'r rhain cyhuddwyd 65.6%, sy'n gyfran uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (63.2%).

Yn y cyfnod hwn, roedd troseddau yn erbyn y person y troseddau a gyflawnwyd amlaf, yn cynrychioli 68% o droseddau trais domestig. Roedd difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn atebol am 13% a 6% pellach yn y drefn honno, yn debyg i 2010-11[24].

Fel y gwelir yn nhabl 2, gostyngodd y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd dros y flwyddyn ddiwethaf o 4% i 79,268, fodd bynnag, mae angen ystyried hyn yn erbyn gostyngiad o 6.5% yn y nifer o achosion a erlynwyd gan y CPS[25]. Cynyddodd Ardaloedd eu llwyth achosion erbyn chwarter 4, 2011-12, fel cyfran o'r holl achosion Ardal. Gostyngodd y nifer o erlyniadau llwyddiannus, o gyhuddo i euogfarn, o lai na 2% i 58,138.

[23] Sylwer bod y niferoedd cyhuddo sy'n delio â'r achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* at y CPS yn ystod 2011-12 am benderfyniadau cyhuddo ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol mewn nifer gyda'r rhai a erlynwyd sy'n cynnwys achosion, yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2011-12.
[24] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau.
[25] Gostyngodd erlyniadau mewn llysoedd ynadon o 6.3% ac yn Llys y Goron o 7.7%, yn gyffredinol o 6.5%.

Cynyddodd yr erlyniad o ddeilliannau llwyddiannus i 73.3%, cynnydd o 1.4 pwynt canrannol (ppt) o'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd y nifer o bledion euog o 2.5ppt dros y flwyddyn i 67.5%, roedd euogfarn wedi treial yn 5.6%[26].
Roedd pledion euog yn atebol am 92% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus, gan greu arbedion gweithredol ac effeithlonrwydd yn ogystal â buddiannau i ddioddefwyr nad ydynt yn gorfod mynychu'r llys i roi tystiolaeth.

**Tabl 2: Erlyniadau trais domestig a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2006 - 07 | | 2007 - 08 | | 2008 - 09 | | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 37,383 | 65.2% | 43,977 | 68.9% | 48,465 | 72.2% | 53,347 | 72.0% | 59,101 | 71.9% | 58,138 | 73.3% |
| Aflwyddiannus | 19,978 | 34.8% | 19,842 | 31.1% | 18,629 | 27.8% | 20,766 | 28.0% | 23,086 | 28.1% | 21,130 | 26.7% |
| **Cyfanswm** | **57,361** | | **63,819** | | **67,094** | | **74,113** | | **82,187** | | **79,268** | |

## Perfformiad ardal

Mae'r tabl ar dudalen 58 yn darparu data erlyniadau trais domestig yn ôl Ardal. Yn 2011-12, yr Ardaloedd oedd yn perfformio'n dda parthed cyfraddau athreuliad trais domestig, h.y. y gyfran uchaf o achosion llwyddiannus, oedd:

**Tabl 3: Erlyniadau trais domestig yn ôl canlyniad, yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau yn erbyn ffigurau cenedlaethol**

| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cenedlaethol | 58,138 | 73.3% | 21,130 | 26.7% | 79,268 |
| Dwyrain Lloegr | 4,551 | 82.7% | 952 | 17.3% | 5,503 |
| Glannau Mersi a Swydd Gaer | 2,346 | 77.1% | 698 | 22.9% | 3,044 |
| De Ddwyrain Lloegr | 3,007 | 77.0% | 896 | 23.0% | 3,903 |

Mae'r tair Ardal wedi gwella o 2010-11. O fewn Dwyrain Lloegr, mae gan Suffolk gyfradd erlyniad llwyddiannus o 87.3% ac Essex yn 84%. Ar y cyfan, gwellodd deg o Ardaloedd eu deilliannau erlyn yn y flwyddyn ddiwethaf.

Yr Ardaloedd oedd yn erlyn y nifer uchaf o achosion TD oedd y Gogledd Orllewin gyda 12,247 (74.2% yn llwyddiannus); Llundain gyda 10,095 (62.7% yn llwyddiannus – cynnydd o 4ppt o 2010-11) a Swydd Efrog a Glannau Humber gyda 7,701 (73.6% yn llwyddiannus).

[26] Mae euogfarn wedi treial yn ddim ond 5.6% o'r 73.3% o ddeilliannau llwyddiannus, gan fod y lefel o bledion euog mor uchel ar 67.5%.

**Arfer da Ardal**

Mae'r newidiadau strwythurol gan un o'r heddluoedd yn Ardal Dwyrain Lloegr, o symud i dîm TD ymroddedig o swyddogion, wedi bod yn ddatblygiad positif. Arweiniodd amharodrwydd rhai dioddefwyr trais domestig i fynychu treial ar raglen hyfforddiant ar gamau allweddol i'w cymryd gan erlynyddion i daclo'r mater hwn ac mae wedi eu cynorthwyo i leihau athreuliad. Mae deunydd hyfforddiant wedi ei ddosbarthu'n eang yn lleol i sicrhau ymagwedd gyson.

**Rôl cydlynydd Ardal**

Penododd Glannau Mersi a Swydd Gaer rôl Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig (DAC), yn ogystal â Chydlynydd VAWG, gyda 40% o amser y DAC yn cael ei glustnodi'n benodol i helpu gwella erlyniadau. Mae'r DAC wedi hwyluso samplu dip o ddeilliannau croes, wedi adfywio'r broses SDVC, wedi creu a chynnal cysylltiadau gyda phartneriaid allweddol, wedi craffu ar achosion VAWG gyda'r LSIP Ardal, ac wedi darparu canllaw rheolaidd i sicrhau penderfyniadau cyson. Mae'r Ardal hefyd wedi sicrhau bod y tîm ymroddedig o arbenigwyr trais domestig wedi bod yn edrych ar y nifer mwyaf posibl o achosion, gan gwrdd yn rheolaidd i rannu arfer gorau, ac wedi derbyn hyfforddiant perthnasol.

## Materion cydraddoldeb

**Rhywedd**
Yn 2011-12, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, sef 93%. Cafwyd gwelliant mewn cofnodi rhywedd dioddefwyr hyd at 87% yn 2011-12. O'r rhai y cofnodwyd eu rhywedd, parhaodd y gyfran o fenywod oedd yn ddioddefwyr ar lefel 2010-11, ar 84%.

**Ethnigrwydd**
yn 2011-12, dynodwyd ychydig dros 80% o ddiffynyddion trais domestig fel Gwyn (fel yn y flwyddyn flaenorol), gyda 76% yn cael eu nodi i fod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. 6% o ddiffynyddion a ddynodwyd yn Ddu, a 5% pellach fel Asiaidd, fel yn y ddwy flynedd flaenorol[27]. Er bod cofnodi ethnigrwydd dioddefwyr wedi gwella, mae ychydig dros hanner yn dal heb eu cofnodi ac felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Darparwyd canllaw ar gyfer Ardaloedd ar erlyn achosion yn ymwneud â diffynyddion a dioddefwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), gan amlinellu sut i weithio gyda chymunedau lleol - yn arbennig trwy LSIPau, WCUau ac SDVCau - i godi materion penodol i'r cymunedau yn ogystal â delio â chefnogaeth arbenigol leol i ddioddefwyr BME.

[27] Ni ddatganodd ychydig dros 2% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar arestio, ac ni ddarparwyd ychydig dan 4% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.

**Oed**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (69%) a 18-24 (26%). Roedd yn bryder i ni nodi bod ychydig dan 30% o ddiffynyddion (23,209) dan 24 oed, gyda 2,643 (ychydig dros 3%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed ac 148 (0.2%) yn 10-13 oed. Mae cofnodi oed dioddefwyr wedi gwella hyd at 78%, ond nid yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Cyflawnwyd yr ymgyrch camdriniaeth arddegau VAWG trawslywdoraeth ym Medi 2011. Dynododd casgliadau o Arolwg Troseddau Prydain yn 2009-10 mai'r ystod oedran 16-19 oedd â'r risg mwyaf o brofi trais domestig: 12.7% o fenywod 16-19 o gymharu â chanran cyffredinol o 7.5%, a 6.2% o ddynion 16-19 o gymharu â chanran cyffredinol o 4.2%. Y llynedd cyflawnodd yr EDU adolygiad o 65 o erlyniadau yn ymwneud â throseddwr ifanc ac/neu ddioddefwr ifanc[28]. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â thrais teuluol, corfforol a rhywiol, ond roedd 26% (17) yn gamdriniaeth gan bartner neu gyn bartner. Canfu asesiad ansoddol o'r 17 o erlyniadau hynny fod y rhan fwyaf o ddiffynyddion yn wrywaidd, gydag oed cyfartalog o 16, a bod gan ddioddefwyr oed cyfartalog o 15.

Yng Ngwanwyn 2012, cyflawnwyd gwiriad cywirdeb data ar sampl o achosion (troseddau yn erbyn y person, troseddau rhywiol a dynladdiad) i wirio a oedd llumanau yn cael eu gweithredu'n briodol mewn achosion yn ymwneud â diffynyddion ifanc. Yn ogystal, bydd Panel Craffu Cenedlaethol yn craffu ar sampl o erlyniadau camdriniaeth perthynas arddegau ac/neu gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn yn haf 2012 i nodi materion erlyn yn ymwneud â chamdriniaeth arddegau. Mae'r ymchwil hwn i'w gwblhau yn ystod 2012-13.

## Materion trawslywodraeth

Yn ystod 2011-12, cyflawnodd y Swyddfa Gartref ymgynghoriad ar y diffiniad o drais domestig, gan ystyried cynnwys rhai Dan 18 ac a ddylid cynnwys y patrwm o reolaeth gymhellol. Mae'r CPS eisoes yn cynnwys achosion Dan 18, fel troseddwyr a dioddefwyr, ac yn cydnabod y patrwm o gymhelliant, grym a rheolaeth yn ein hyfforddiant trais domestig. Byddwn yn gweithredu unrhyw newidiadau mewn diffiniad yn 2012-13.

## Hyfforddiant

Rodd yn ofynnol i'r holl erlynwyr nad oeddynt eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant trais domestig wyneb yn wyneb cynharach i gwblhau rhaglen e-ddysgu erbyn diwedd 2011-12. Cafodd yr hyfforddiant e-ddysgu ei ddiweddaru hefyd i sicrhau y cynhwyswyd yr wybodaeth fwyaf diweddar.

## Llysoedd arbenigol TD

Yn ystod 2011-12, parhaodd y CPS i fod yn rhan o Grŵp Llywio Cenedlaethol trawslywodraeth gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn goruchwylio'r Llysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVCau). Yn 2011 roedd yna 143

---

[28] Mewn achosion trais domestig, gofynnir i erlynyddion ddynodi diffynyddion dan 18 fel troseddwyr ifanc, troseddwyr ifanc parhaus neu droseddwyr ifanc parhaus blaenoriaeth cyson iawn a dioddefwyr dan 18 trwy ychwanegu lluman 'camdriniaeth plant'.

o SDVCau gyda chefnogaeth i ddioddefwyr trwy Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAau) ac asesiad o ddioddefwyr risg uchel trwy Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (MARACau) Mewn ymateb i gau arfaethedig ar rai llysoedd ynadon o Ebrill 2011, datblygodd y Grŵp Llywio SDVC Cenedlaethol ganllaw i SDVCau i sicrhau trosglwyddiad gwasanaethau arbenigol i drefniadau llys newydd a goruchwyliodd y cam cyntaf o ran trosglwyddo yn ystod 2011-12.

SDVC – hyder dioddefwyr

Mae un SDVC yng Nglannau Mersi a Swydd Gaer yn cynnwys gweithio rhyngasiantaethol cryf. Cydweithiodd yr holl bartïon yn ddiweddar ar achos o drais domestig ble ymosodwyd ar y dioddefydd gan ei gŵr. Ysgrifennodd gan ganmol ymdrechion yr Heddlu, Uned Gofal Tystion, ei IDVA a'r cyfreithiwr a ddeliodd â'i hachos yn y Llys:

"*Rydym wedi cael ambell ddiwrnod anodd iawn, ond gyda chymorth pawb mae ein bywydau wedi newid er gwell. Rydw i fy hun yn teimlo'n llawer mwy diogel a hapus, ac mae fy mhlant hefyd. Doeddwn i erioed wedi meddwl y byddai'r dydd hwn yn dod ond mae wedi, ac am hynny – diolch i chi.*

*Unwaith eto, rwyf mor ddiolchgar am eich gwaith caled. Y cyfan oeddwn i eisiau oedd i rywun fy nghredu ac i rywun ddweud wrth fy ngŵr bod yr hyn yr oedd yn ei wneud yn anghywir ac i gael cyfiawnder."*

## Tynnu'n ôl

Mae un o brif broblemau achosion trais domestig yn ymwneud â thynnu'n ôl gan ddioddefwyr oherwydd y berthynas agos ac yn aml glos sydd rhwng y diffynnydd a'r dioddefydd. Methodd dros 7,300 o achosion trais domestig yn 2011-12 oherwydd i'r dioddefydd naill ai fethu mynychu'r llys neu dynnu eu tystiolaeth yn ôl; roedd hynny yn cyfateb i tua 33% o'r holl achosion trais domestig aflwyddiannus o gymharu â thua 10% o'r holl erlyniadau eraill.

O'r *holl* achosion a erlynwyd, mae'r gyfran oedd yn aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr[29] wedi gostwng i 13.5% wedi tair blynedd o barhau i fod yn gyson ar tua 14%. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys yn allweddol i leihau tynnu'n ôl ac mae gwaith i wella hyn yn cael ei amlinellu isod.

[29] Achosion aflwyddiannus oherwydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl; dim mynychu neu ble nad yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.

**Dioddefwr ddim yn mynychu**

Wynebodd Glannau Mersi a Swydd Gaer achos heriol ble nad oedd y dioddefydd na'r diffynnydd yn bresennol yn y treial. Gwnaeth yr erlynydd gais i fwrw ymlaen yn absenoldeb y diffynnydd trwy ddefnyddio golygu gofalus ar ddatganiadau a defnyddio cyfweliad yr heddlu. Cwestiynodd y llys y cais i fwrw ymlaen a'r ddibyniaeth ar adroddiadau ail-law, ond fe'i darbwyllwyd gan yr erlynydd ynglŷn â'r sefyllfa gyfreithiol bresennol o ganllaw arfer da hygyrch a ddrafftiwyd gan y cydlynydd trais domestig. Yna fe brofwyd yr achos gan ddibynnu ar y dystiolaeth ail-law honno.

Yn 2011-12, cychwynnwyd ymchwil mewn un Ardal i asesu'r gweithredoedd mwyaf effeithiol yn dilyn diffyg ymgysylltiad neu dynnu yn ôl gan ddioddefwyr. Ar gyfer pob achos, dros gyfnod o bedwar mis, cofnododd yr Ardal resymau dros dynnu yn ôl, cefnogaeth i ddioddefwyr, gweithredoedd yn cynnwys asesiad o ddiogelwch dioddefwyr, p'un a ddefnyddiwyd tystiolaeth arall ac/neu wysion a deilliannau. Yn ogystal, darparodd IDVAau eu barnau trwy holiaduron a grŵp ffocws. Disgwylir y bydd yr ymchwil wedi ei gwblhau yn 2012-13.

## Materion dioddefwyr

Nodwyd nifer o fentrau lleol fel arfer da trwy gydol 2011-12. Cynhaliwyd ystod o gynadleddau VAWG yn lleol, yn cynnwys cynhadledd trais domestig ar gyfer cymunedau anodd eu cyrraedd yn Nwyrain Canolbarth Lloegr. Cyfieithodd Dwyrain Canolbarth Lloegr daflenni trais domestig i bedair o ieithoedd lleol hefyd. Trefnwyd sgyrsiau mewn ysgolion a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr iechyd yng Nghymru. Codwyd materion ar drais domestig mewn cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig mewn nifer o Ardaloedd hefyd.

**Datganiadau personol dioddefwyr**

Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, cynhaliwyd peilot yn 2011-12 o gael Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAau) i ysgrifennu datganiadau personol dioddefwyr yn hytrach na'r heddlu. Gostyngodd cyfraddau athreuliad yn ystod y peilot, gyda dioddefwyr yn nodi i'r gefnogaeth gryfhau eu penderfyniad i barhau gyda'r erlyniad. Yn dilyn yr adolygiad o'r peilot, penderfynodd yr Ardal i barhau gydag arfer o'r fath, gyda'r holl ddioddefwyr ac nid y rhai a nodwyd fel 'risg uchel' yn unig. Gobeithir y bydd mwy o ddefnydd o ddatganiadau personol dioddefwyr yn galluogi mwy o geisiadau am orchmynion ataliaeth mewn achosion ble ceir rhyddfarn. Mae'r Ardal hefyd wedi mabwysiadu defnydd o restr wirio trais domestig ac wedi mabwysiadu 'awgrymau da' i erlynwyr sicrhau bod ganddynt achosion cryf trwy ddibynnu ar dystiolaeth yn hytrach na'r dioddefydd.

Yn Chwefror 2012 cynhaliwyd cynhadledd yn Ne Orllewin Lloegr i lansio arolwg dioddefwyr o'r System Cyfiawnder Troseddol a sectorau eraill. Cyflawnwyd arolwg tebyg yn Swydd Efrog a Glannau Humber hefyd. Yn Swydd Efrog a Glannau Humber, casglodd yr arolwg dioddefwyr farnau'r rhai oedd wedi eu heffeithio gan drais domestig i weld beth sydd angen i gynyddu erlyniadau llwyddiannus a boddhad dioddefwyr. Arweiniodd hyn at ddatblygu taflen trais domestig, nodiadau atgoffa ar bolisi gwysion, datganiadau personol dioddefwyr a llythyrau DCV.

**Barnau dioddefwyr**

Yn dilyn arolwg o ddioddefwyr, cyfarfu Ardal De Orllewin Lloegr gyda dioddefwyr trais domestig trwy asiantaeth cefnogaeth dioddefwyr lleol. Galluogodd hyn y CPS i glywed adborth uniongyrchol gan ystod eang o gyn ddioddefwyr mewn lleoliad grŵp ffocws. Dysgodd yr Ardal am effaith llythyrau DCV ar eu dealltwriaeth o benderfyniadau'r CPS ac am yr angen i weithio'n agosach gyda chydweithwyr yn yr heddlu i sicrhau eu bod hefyd yn cael mwy o eglurder ar benderfyniadau erlyn.

## Troseddwyr benywaidd

Datblygodd nifer o Ardaloedd raglenni gyda grwpiau lleol ar gyfer troseddwyr benywaidd oedd wedi bod yn ddioddefwyr trais domestig. O fewn y cynllun rhybudd Amodol[30] mae amod wedi ei ddatblygu yn benodol ar gyfer troseddwyr benywaidd. Mae'r Amod Penodol i Fenywod yn amod adferol i fynychu canolfan /prosiect menywod ar gyfer "asesiad anghenion" llawn, ac yna gall troseddwyr benywaidd fynychu'r ganolfan/prosiect ar sail wirfoddol i ymgysylltu mewn rhaglen i ddelio â'r anghenion sylfaenol a arweiniodd at eu troseddu.

**Amodau Penodol i Fenywod (WSC)**

Yng Nglannau Mersi, mae dwy ganolfan benodedig yn cynnig ystod o wasanaethau a chefnogaeth i droseddwyr benywaidd a wynebodd gamdriniaeth yn flaenorol, yn rhan o'u dedfryd adferol WCS. Yn ystod 2011/12, mae 81 o fenywod wedi derbyn WSC gyda chyfradd llwyddiant o dros 80%.

[30] Mae rhybudd amodol yn rhybudd gydag amodau gorfodol wedi'u hatodi y gellir ei weinyddu i droseddwyr risg isel, lefel isel a thro cyntaf yn bennaf.

## Gorchmynion ataliol

Yn Nhachwedd 2011, fe gyhoeddom ganllaw pellach ar orchmynion ataliol. Addasodd adran 12 y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 adran 5 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, gan alluogi'r llysoedd i gyhoeddi gorchymyn ataliol ar ryddfarn.

Diweddarwyd y Canllaw Cyfreithiol ar Orchmynion Ataliol i ddelio â'r sefyllfa ble na cheir tystiolaeth. Dylid ystyried achosion o'r fath fel rhai'n ymwneud ag athreuliad ac mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn briodol i geisio gorchymyn ataliol i ddiogelu diogelwch dioddefydd. Fodd bynnag, cynghorwyd erlynwyr i fod yn wyliadwrus ynglŷn â mabwysiadu'r ymagwedd hon ac i sicrhau nad yw'n datblygu'n sefyllfa ddiofyn.

Dynododd data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2011 i gyfanswm o 17,765 o orchmynion ataliol gael eu cyhoeddi yn y flwyddyn galendr 2011 ar erlyniad a 1,358 ar ryddfarn[31].

## Aflonyddu trais domestig

Mae prif adran nesaf yr adroddiad hwn yn amlinellu'r data cyffredinol ar droseddau aflonyddu[32]. Yma mae'r troseddau aflonyddu, ble cychwynnwyd erlyniad, mewn achosion trais domestig, wedi eu hamlinellu.

Fel yn Nhabl 4 isod, yn 2011-12:

- Llumanwyd 4,710 o droseddau fel cyhuddiad trais domestig dan Adran 2 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu (PHA) 1997 – ymddygiad yn cyfateb i aflonyddu - (o gymharu â 4,822 yn 2010-11);
- Llumanwyd 1,056 o droseddau fel cyhuddiad trais domestig dan Adran 4 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu (PHA) 1997 – achosi i bobl ofni trais – (o gymharu â 1,423 yn 2010-11);
- Roedd hyn yn ostyngiad o ddau y cant mewn erlyniadau A2 PHA 1007 a 26% yn A4 PHA 1997; fodd bynnag, erlynwyd mwy o doriadau o orchmynion ataliol;
- Roedd 6,365 o'r toriadau gorchmynion ataliol yn ymwneud â thrais domestig; cynnydd o 57% o 2010-11;
- O'r rhain, roedd 202 yn doriadau o orchmynion ataliol a wnaed ar ryddfarn; mwy na dwbl y rhai a erlynwyd yn 2010-11;
- Dechreuodd 4,333 o doriadau gorchmynion peidio aflonyddu gael eu herlyn, o gymharu â 4,262 yn y flwyddyn flaenorol.

[31] Data ar gyfer yr holl orchmynion ataliol – yn cynnwys trais domestig; Darperir cafeatau ar gyfer y data hwn yn adran aflonyddu'r adroddiad
[32] Y cafeat yng nghyswllt data trosedd yw:
Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau MIS yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd ym Mydysawd Troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad – bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi p'un ai a aethpwyd ymlaen â'r drosedd honno ai peidio ac nad oes dynodiad o ddeilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn drosedd sylweddol wrth derfynu. Mae'r cafeat hwn yn berthnasol i unrhyw ddata trosedd arall a ddefnyddir drwy'r adroddiad hwn.

**Tabl 4: Troseddau aflonyddu a gyhuddwyd yn cyrraedd gwrandawiad cyntaf mewn llysoedd ynadon**

| | | 2011-2012 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Llumanwyd fel trais domestig** | | **Holl droseddau eraill** | | **CYFANSWM** |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 { 42A(1) a (5) } | Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 4,333 | 81.4% | 990 | 18.6% | **5,323** |
| Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2(1) a (2) } | Aflonyddu heb drais | 4,710 | 61.1% | 3,003 | 38.9% | **7,713** |
| Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4(1) a (4) } | Aflonyddu – achosi ofn o drais | 1,056 | 64.7% | 576 | 35.3% | **1,632** |
| Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) } | Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar euogfarn | 6,163 | 73.0% | 2,284 | 27.0% | **8,447** |
| Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) } | Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar ryddfarn | 202 | 70.6% | 84 | 29.4% | **286** |

| | | 2010-2011 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Llumanwyd fel trais domestig** | | **Holl droseddau eraill** | | **CYFANSWM** |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 { 42A(1) a (5) } | Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 4,262 | 80.7% | 1,019 | 19.3% | **5,281** |
| Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 2(1) a (2) } | Aflonyddu heb drais | 4,822 | 60.0% | 3,217 | 40.0% | **8,039** |
| Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 4(1) a (4) } | Aflonyddu – achosi ofn o drais | 1,423 | 64.7% | 776 | 35.3% | **2,199** |
| Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) } | Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar euogfarn | 3,962 | 68.7% | 1,806 | 31.3% | **5,768** |
| Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 { 5(5) a (6) } | Aflonyddu – torri gorchymyn ataliol ar ryddfarn | 93 | 60.4% | 61 | 39.6% | **154** |

Er y cafwyd gostyngiad mewn erlyniadau aflonyddu penodol (o 2% ar gyfer Adran 2 a 26% ar gyfer Adran 4); dyblwyd erlyniadau ar gyfer toriadau gorchmynion ataliol. Gallai hyn adlewyrchu aildroseddu gan yr un troseddwyr o bosibl, sy'n cael eu herlyn am doriadau o'u gorchmynion ataliol yn hytrach nag i drosedd bellach dan y PHA 1997, ar y sail bod llysoedd yn cymryd torri gorchmynion llys o ddifri.

Yn 2012, cyhoeddwyd deddfwriaeth newydd ar stelcio, fel yr amlinellwyd yn yr adran nesaf ar Aflonyddu. Wedi eu gweithredu, bydd y CPS yn monitro'r effaith ar stelcio ac aflonyddu, yn arbennig mewn achosion VAWG.

**Aflonyddu – materion diwylliannol**

Aflonyddwyd ar ddioddefydd Asiaidd gan ei chyn ŵr (y diffynnydd) yn dilyn chwalu eu priodas. Roedd y diffynnydd yn ei bychanu o fewn ei chymuned ac wedi ei galw'n butain yn y stryd, a hynny wedi dwyn 'gwarth' ar ei theulu meddai hi. Cefnogwyd y dioddefydd gan y Gwasanaeth Tystion a rhoddodd dystiolaeth a arweiniodd at gael y diffynnydd yn euog.

Mae rhai achosion o drais rhywiol yn digwydd mewn sefyllfaoedd trais domestig. Mae manylion trais a throseddau rhywiol wedi eu cynnwys yn yr adrannau treisio a throseddau rhywiol, ond ceir manylion un achos sy'n dangos ble mae'r materion yn gorgyffwrdd isod.

**Treisio trais domestig**

Roedd y dioddefydd yn y broses o gael ysgariad oddi wrth y diffynnydd. Daeth yn ôl i'r cartref priodasol i fynd â'r ci am dro a chanfod y diffynnydd adref yn annisgwyl. Cafwyd ffrae lafar rhyngddynt a ddaeth yn un gorfforol wrth i'r diffynnydd geisio'i hatal rhag gadael. Bygythiodd y diffynnydd hi â holltwr cig cyn ei threisio. Dadl yr amddiffyniad oedd i wrthdaro corfforol fod rhyngddynt, a ddechreuwyd gan y dioddefydd, ond iddynt gymodi a chael rhyw gydsyniol i fyny'r grisiau. Yn dilyn cyngor gan y CPS, cryfhaodd yr heddlu dystiolaeth y dioddefydd trwy gael lluniau o'r anafiadau i freichiau'r dioddefydd yn ogystal â'r datganiad llawn gan yr Archwilydd Meddygol Fforensig yn nodi'r holl farciau ac anafiadau i'r dioddefydd. Cafwyd y diffynnydd yn euog a'i ddedfrydu i bedair blynedd o garchar.

# Aflonyddu

Yn 2011-12[33]:

- Cychwynnwyd erlyniad parthed 7,713 o droseddau a gyhuddwyd dan A2 PHA 1997 ar gyfer aflonyddu – gostyngiad o bedwar y cant o 8,039 yn 2010-11;
- Cychwynnwyd 1,632 o erlyniadau dan A4 PHA 1997 – gan godi ofn trais ar bobl – lleihad o 26% o 2,199 yn 2010-11;
- Fodd bynnag, dechreuodd 8,733 o droseddau torri troseddau gorchymyn ataliol, cynnydd o 5,922 (47%) o 2010-11; ac
- O'r rhain, roedd 286 yn doriadau o orchmynion ataliol a wnaed ar ryddfarn; cynnydd o 86% o 2010-11;
- Dechreuodd 5,323 o doriadau gorchmynion peidio aflonyddu gael eu herlyn, o gymharu â 5,281 yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r adran trais domestig blaenorol yn darparu tabl o droseddau aflonyddu ac yn amlinellu erlyniadau aflonyddu penodol yn ymwneud â thrais domestig.

Dynododd data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2011 y cyhoeddwyd 17,765 o orchmynion ataliol yn 2011 ar erlyniad a 1,358 ar ryddfarn. Yn ystod 2011, roedd 5,039 o doriadau o orchmynion ataliol a gyflwynwyd ar euogfarn, gyda 4,376 yn cael eu dedfrydu[34]. Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn delio â'r flwyddyn galendr a hefyd yn ymwneud ag achosion a erlynwyd ble roedd gorchmynion ataliol y prif droseddau a erlynwyd, o gymharu â data'r CPS yn seiliedig ar flwyddyn ariannol sy'n cynnwys yr *holl* droseddau yn *cychwyn* erlyniad, nid ble mae gorchymyn ataliol yn brif drosedd yn unig.

Mae'r CPS wedi darparu canllaw aflonyddu i'r heddlu i'w cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o ddeddfwriaeth bresennol a chyfraith gyffredin allai fod yn berthnasol i achosion o aflonyddu.

---

[33] Troseddau a gofnodwyd ym Mydysawd Troseddau System Rheoli Gwybodaeth y CPS yw'r rhai sy'n cyrraedd gwrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon yn y gronfa ddata CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodir ym Mydysawd Troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad. Bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi p'un a aethpwyd ymlaen â'r drosedd honno neu beidio, ac nad oes dynodiad o'r deilliant terfynol neu os yw'r drosedd a gyhuddwyd y drosedd wirioneddol ar derfynu.

[34] Gall y nifer o ddiffynyddion a geir yn euog mewn blwyddyn benodol fod yn fwy na'r nifer y cychwynnir yn eu herbyn gan i'r achos yn y llys ynadon ddigwydd mewn blwyddyn gynharach a chafwyd y diffynyddion yn euog yn Llys y Goron yn y flwyddyn ganlynol; neu y cafwyd y diffynyddion yn euog o wahanol drosedd i'r achos gwreiddiol yn eu herbyn. Mae'r ffigurau ar achosion llys yn ymwneud ag unigolion yr oeddynt yn delio â nhw gyda'r troseddau hyn yn brif droseddau iddynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Ble gweithredir yr un gwarediad am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddetholir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol uchaf. Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei echdynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a heddluoedd. O ganlyniad, dylid cymryd gofal i sicrhau yr ystyrir prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel wrth ddefnyddio'r data.

## Deddfwriaeth

Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref Ymgynghoriad ar Stelcio ac Aflonyddu, yn dilyn pryderon gan nifer o grwpiau oedd o'r farn nad yw'r Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 (PHA) yn delio'n ddigonol â throseddau stelcio ac nad ydynt yn cynnig llawer o amddiffyniad i ddioddefwyr. Cyflwynodd y CPS ymateb manwl i Ymgynghoriad y Swyddfa Gartref.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, crëwyd dwy drosedd newydd o stelcio a stelcio ble ceir ofn trais. Bydd y troseddau presennol o aflonyddu yn PHA 1997 yn parhau i sefyll. Darperir canllaw ar y troseddau newydd yn 2012-13.

**Stelcio**

Yn Llundain, dedfrydwyd bancwr buddsoddi am aflonyddu ar ei gyn gariad wedi llu o ddigwyddiadau. Roedd wedi hacio i mewn i'w chyfrif e-bost, tresmasu yn ei fflat gan ddefnyddio hen allwedd, ac wedi honni ar gam fod ei chwaer wedi marw i geisio cael ei sylw. Ar un adeg fe anfonodd 176 o negeseuon testun ati mewn 24 awr. Er iddo gael ei ddedfrydu i ryddhad amodol, mae bellach yn wynebu cosb ddifrifol os bydd yr aflonyddu yn parhau.

## Hyfforddiant

Gan gydnabod y cynnydd mewn seiber droseddau, datblygwyd modwl e-ddysgu seiber stelcio sy'n delio â seiber stelcio ac aflonyddu, adran 127 Deddf Cyfathrebu 2003; adran 1 Deddf Cyfathrebu Faleisus 1998 a'r drosedd o baratoi i bwrpas rhyw, Rydym nawr yn ystyried deunydd hyfforddi arall ar gyfer y troseddau newydd o stelcio ac yn debygol o adeiladu ar y deunydd e-ddysgu seiber stelcio. Hefyd, yn unol â'r ymroddiad a roddwyd gan y llywodraeth ar hyfforddiant ar gyfer yr heddlu a'r CPS ar stelcio, bydd y gweithgor ACPO/Swyddfa Gartref/CPS yn ystyried dulliau o ddatblygu'r hyfforddiant ehangach hwn.

**Torri gorchymyn ataliol**


Aflonyddodd diffynnydd 16 oed ar ei gyn gariad o'r un oed yn dilyn terfyn eu perthynas, a rhoddwyd gorchymyn ataliol iddo. Fodd bynnag, deuddydd wedi cyflwyno'r gorchymyn, derbyniodd yr achwynydd negeseuon Facebook ymosodol gyda bygythiadau i'w lladd ac eraill yn agos ati. Er na ddaeth y negeseuon o gyfrif y diffynnydd, roedd tystiolaeth yn cysylltu'r negeseuon i'w gyfrifiadur a defnyddiwyd tystiolaeth nod drwg i ddynodi y defnyddiwyd iaith debyg mewn aflonyddu blaenorol. Dedfrydwyd y diffynnydd i Orchymyn Adsefydlu Ieuenctid am 24 mis gyda gofyniad goruchwylio, cyrffyw, a gweithgaredd penodedig. Ymestynnodd y Llys hyd gweithrediad y gorchymyn ataliol hefyd i redeg am ddwy flynedd arall.

# Treisio

Mae'r CPS yn parhau i ystyried treisio i fod yn fater difrifol iawn ac yn cydnabod bod erlyn achos o dreisio yn heriol. O ddata rheoli achos y CPS, y patrwm cyffredinol o erlyniadau treisio yw bod y CPS yn cyhuddo cyfran uwch o achosion, yn atal llai o achosion, yn cyflawni mwy o bledion euog a gyda llai o achosion yn methu am resymau heblaw rhyddfarn rheithgor.

Mae Graff 3 yn dangos y cynnydd yn euogfarnau treisio'r CPS yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

**Graff 3:** **Cyfraddau euogfarn treisio 2007-08 i 2011-12**




Yn 2011-12, cynyddodd y gyfran o achosion treisio a erlynwyd yn llwyddiannus. Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion a gyhuddwyd a'u llumanu fel treisio o'r cychwyn, ond hefyd achosion ble cafwyd euogfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar euogfarnau achosion a gyhuddwyd ac a gafwyd yn euog o dreisio yn unig. Gosodir y faner o gychwyn yr achos; bydd y faner yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiad o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny. Rhoddir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel yr ystadegau cenedlaethol swyddogol am dreisio er mwyn rhoi cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny ble'r oedd yr euogfarn derfynol am dreisio.

## Ystadegau cenedlaethol swyddogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Dengys gwybodaeth sydd ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mlwyddyn galendr 2011 yr erlynwyd 2,873 diffynnydd, ar sail prif drosedd[35], am dreisio yn y llysoedd ynadon, gyda 2,807 yn cael eu traddodi i Lys y goron ar gyfer treial. Yn 2011 cafodd 1,153 o droseddwyr euogfarn o dreisio, gan arwain at gymhareb erlyniad i euogfarn yn 2011 o 40%; cynnydd o 34% yn 2010. Nid yw'r gymhareb hon yn cymryd i ystyriaeth ddiffynyddion a erlynir am dreisio ond sy'n eu cael yn euog yn Llys y Goron am drosedd arall. Cyhoeddir gwybodaeth ar erlyniadau ac euogfarnau yn chwarterol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fodd bynnag, dim ond yn flynyddol y cyhoeddir data lefel trosedd manwl, e.e. trais, ar gyfer y flwyddyn galendr gyflawn, i sicrhau fod y data i gyd wedi ei dderbyn a'r prosesau dilysu wedi eu cwblhau.

## Data rheolaeth perfformiad y CPS

Cafwyd cynnydd yn y gyfran o achosion a gyhuddwyd o'r rhai a gyfeiriwyd at y CPS gan yr heddlu ar gyfer penderfyniadau cyhuddo. Yn 2011-12, cyhuddwyd 42.1% – cynnydd o 5.4ppt o'r flwyddyn flaenorol[36]. Fodd bynnag, mae cywirdeb llumanu achosion wedi amrywio trwy gydol y flwyddyn, gan ostwng i 93.5% erbyn diwedd 2011-12.

O ddata'r CPS, erlynwyd 3,627 (97%) a lumanwyd yn gyntaf fel treisio ar gyfer y categorïau prif drosedd[37] 'troseddau rhyw, yn cynnwys treisio' neu brif droseddau mwy difrifol o 'ddynladdiad' neu 'droseddau yn erbyn y person' yn y pen draw. O'r rhain roedd 3,397 ar gyfer troseddau rhywiol yn cynnwys treisio; pedwar ar gyfer dynladdiad a 226 ar gyfer troseddau yn erbyn y person.

Dengys data rheoli achos y CPS (tabl 5), fod y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd wedi gostwng ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf o 8% i 3,864, gydag erlyniadau llwyddiannus[38] yn lleihau ychydig o ran nifer o 2% i 2,414. Fodd bynnag, mae wyth o Ardaloedd wedi gwella eu llwyth achos treisio fel cyfran o'r holl droseddau ditiadwy yn unig.

---

[35] Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Pan ystyrir mwy nag un drosedd mewn achos llys neu ddigwyddiad rhybuddio, tybir mai'r drosedd a fyddai/ a wnaeth ddenu'r deilliant dedfrydu mwyaf llym yw'r Brif drosedd ac mae'r troseddau eraill yr ymdrinnir â nhw yn yr achos hwnnw'n cael eu hanwybyddu. Os yw dwy drosedd yn yr un achos yn denu'r un ddedfryd, y drosedd sydd â'r ddedfryd statudol fwyaf a dybir yw'r 'Brif drosedd'.

[36] Cynyddodd deg o Ardaloedd y gyfran o achosion a erlynwyd o'r rhai a anfonwyd ymlaen i'r CPS gan yr heddlu ar gyfer penderfyniad cyhuddo.

[37] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau. Mae'r data categori prif drosedd a gofnodir gan y CPS yn y System Rheoli Achosion yn orgynnil wrth gymharu â'r niferoedd erlyniad cyffredinol yn yr un cyfnod. Mae deilliannau a arweiniodd at derfyniad gweinyddol neu achosion anghyflawn, ble na ddyrannir categori prif drosedd, wedi eu heithrio.

[38] Deilliannau o gyhuddo i euogfarn.

Yn 2011-12 roedd lleihad o 4ppt mewn athreuliad treisio. Mae'r gyfran o euogfarnau, o'r holl achosion a erlynwyd, wedi codi o 58.6% yn 2010-11 i 62.5% yn 2011-12. Dyma'r gyfradd euogfarn uchaf i'w chofnodi ar gyfer treisio hyd yn hyn. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ataliwyd llai o achosion – dim ond 16.2% o'r holl achosion, gostyngiad o 2.2ppt.

Cynyddodd pledion euog hyd yn oed yn fwy – o 4.2ppt – o 35.7% yn 2010-11 i 39.9% yn 2011-12. O'r holl ddeilliannau llwyddiannus roedd 64% o ganlyniad i bledion euog, cynnydd o 61% yn y flwyddyn flaenorol.

O'r holl resymau dros ddeilliannau aflwyddiannus, bu peth cynnydd yn rhyddfarnau gan reithgor – o ychydig dan 48% yn 2010-11 i 51% yn 2011-12. Mae'r cynnydd mewn rhyddfarnau gan reithgor yn awgrymu fod angen mwy o waith gyda phartneriaid i ddelio ag ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i herio mythau ac ystrydebau, sydd wedi arwain yn draddodiadol at gyfraddau athreuliad uchel gan reithgor mewn achosion troseddau rhywiol.

**Tabl 5: Erlyniadau treisio a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2007 - 08 | | 2008 - 09 | | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 2,021 | 57.7% | 2,018 | 57.7% | 2,270 | 59.4% | 2,465 | 58.6% | 2,414 | 62.5% |
| Aflwyddiannus | 1,482 | 42.3% | 1,477 | 42.3% | 1,549 | 40.6% | 1,743 | 41.4% | 1,450 | 37.5% |
| **Cyfanswm** | **3,503** | | **3,495** | | **3,819** | | **4,208** | | **3,864** | |

O'r holl ddeilliannau aflwyddiannus, gostyngodd y rhai oedd o ganlyniad i faterion dioddefwyr o ychydig dan 12% o 14% yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd naw o ardaloedd y gyfran o achosion aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr. Mae deilliannau aflwyddiannus blwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd materion dioddefwyr wedi gostwng gan gyfateb i ostyngiad o chwe phwynt canrannol o 2007-08. Credir bod hyn yn adlewyrchu'r gefnogaeth well ar gyfer dioddefwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan fod deilliannau aflwyddiannus oherwydd tynnu yn ôl wedi lleihau o ychydig dan naw y cant yn 2007-08 i ychydig dros bedwar y cant yn 2011-12.

## Perfformiad ardal

Mae'r tabl ar dudalen 58 yn darparu data erlyniadau treisio yn ôl Ardal. Yn 2011-12, yr Ardaloedd oedd yn perfformio'n dda parthed cyfraddau athreuliad treisio, h.y. y gyfran uchaf o achosion llwyddiannus, oedd:

**Tabl 6: Erlyniadau treisio yn ôl canlyniad, yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau yn erbyn ffigurau cenedlaethol**

| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cenedlaethol | 2,414 | 62.5% | 1,450 | 37.5% | 3,864 |
| Dwyrain Lloegr | 165 | 69.0% | 74 | 31.0% | 239 |
| Wessex | 110 | 68.3% | 51 | 31.7% | 161 |
| De Orllewin Lloegr | 175 | 68.1% | 82 | 31.9% | 257 |

Yn Nwyrain Lloegr, cyflawnodd Essex 75.3% o ddeilliannau llwyddiannus. Gostyngodd Wessex eu hachrediad o 15ppt o'r flwyddyn flaenorol, gyda Wiltshire yn cyrraedd 78.9% o ddeilliannau llwyddiannus. Ar y cyfan, gwellodd deg o Ardaloedd eu deilliannau erlyn; chwe Ardal o dros 6ppt, gyda thri dros 10ppt. Yr Ardaloedd yn erlyn y nifer uchaf o achosion treisio oedd Llundain 688 (gyda 55.4% o ddeilliannau llwyddiannus – cynnydd o 3.4ppt o 2010-11); Gogledd Orllewin Lloegr 459 (gyda 62.7% yn llwyddo) a Swydd Efrog a Glannau Humber (gyda 66.1% yn llwyddo – cynnydd o 2.1ppt o 2010-11) Mae gan Ogledd Orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber ill dau gyfraddau euogfarn sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 62.5%

**Gweithredoedd arfer da**

Canolbwyntiodd Dwyrain Lloegr ar achrediad treisio trwy edrych ar faterion mewn un rhanbarth. Gan ddefnyddio arbenigedd yr aelodau rhanbarthol ehangach i ganfod datrysiadau, a chynorthwyo i wella lefelau achrediad. Mae gwaith ar droed ar hyn o bryd ar safoni Trefniadau Rhannu Gwybodaeth Trydydd Parti, a chynnal digwyddiadau hyfforddi ar y cyd gyda'r heddlu a chyfreithwyr Gwasanaethau Plant. Mae'r arweinydd VAWG a hyfforddwr RASSO mewn un dosbarth yn rhedeg grŵp rheolaidd yn edrych ar faterion VAWG y mae'r farnwriaeth, y bar, yr heddlu a'r CPS yn eu mynychu. Mae hyfforddiant wedi ei achredu, defnyddir siaradwyr gwadd ac fe ystyrir materion polisi ac ymchwiliol ymarferol yn rheolaidd. Mae meddygon, barnwyr, seicolegwyr a'r bar oll wedi cyfrannu. Yn ddiweddar mynychodd y farnwriaeth â digwyddiad hyfforddiant rhyngasiantaethol.

## Asesiad ansoddol o achosion treisio

Mae cymhariaeth o'r asesiadau o fewn Monitro Safonau Ansawdd Craidd achosion trais gyda'r holl achosion yn dynodi ymateb cyffredinol tebyg i'r holl ymroddiadau[39]. Fodd bynnag mae sgoriau ymrwymiad unigol yn dangos rhai gwahaniaethau, a ddefnyddir i hysbysu'r Gwasanaeth am y materion i ymdrin â nhw. O Ebrill 2011 – Mawrth 2012 aseswyd 16,894 o achosion CPS yn gyffredinol, gyda 1,104 yn achosion treisio (6.5% o'r holl achosion a aseswyd). Aseswyd erlyniadau treisio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer 'sicrhau y gwnaed popeth posib i wneud i rwystro deilliannau

[39] Cyfrifir sgôr â phwysau i'r lefel o ymrwymiadau sy'n cael eu cwrdd; i bob achos mae'r sgôr yn 0.87 i achosion treisio 0.86.

aflwyddiannus'. Roeddynt hefyd ychydig yn well o ran datgeliad amserol a llythyrau Cyfathrebiad Uniongyrchol gyda Dioddefwyr (DCV) amserol, ond roedd safon yr ohebiaeth yn is nag ar gyfer yr holl achosion, a fydd yn derbyn sylw trwy sicrwydd VAWG. Roedd rhai casgliadau eraill yn galw am welliannau, e.e. 'sicrhau cyfarwyddiadau digonol i eiriolwyr' a 'chynorthwyo'r llys'. Defnyddir y casgliadau hyn ar lefel Ardal i hysbysu pa welliannau y gellir eu gwneud i ansawdd erlyniadau.

Ers Ionawr 2011, mae Ardaloedd wedi darparu sicrwydd ansoddol manylach o tua chwarter eu hachosion treisio bob chwe mis. Yn Ebrill 2012, darparodd cydlynwyr VAWG eu trydydd asesiad o achosion i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r DPP i nodi materion ym mhob Ardal ble byddant yn canolbwyntio ar welliannau yn y dyfodol. Dynododd eu hasesiadau welliannau yn ystod y flwyddyn yn nosbarthiad achosion i arbenigwyr treisio; llai o achosion o ddim gweithredu pellach a gwelliannau mewn cyfarwyddiadau i gwnsleriaid. Fodd bynnag, cydnabu nifer o Ardaloedd fod angen gwaith pellach i wella ymgynghori cynnar gyda'r heddlu; cynnal trafodaeth gyda chwnsleriaid a chael adroddiadau wedi achosion ganddynt ; materion dioddefwyr megis mesurau arbennig ac ystyriaeth o gyfweliadau tystion cyn treial.

**Protocolau Trydydd Parti**

Mae CPS Wessex wedi sefydlu Protocolau Trydydd Parti gydag awdurdodau lleol yn Hampshire a Wiltshire ac ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gytuno ar un gydag Awdurdodau Lleol Dorset. Mae'r rhain wedi bod yn offeryn allweddol i sicrhau yr adolygir cofnodion gwasanaethau cymdeithasol gan swyddog ymchwilio ac y darperir deunydd perthnasol i ni cyn gwneud penderfyniadau cyhuddo mewn achosion sy'n addas ar gyfer mechnïaeth. Mae hyn wedi caniatáu i erlynwyr wneud penderfyniadau cyhuddo gwybodus a lleihau'r nifer o achosion sydd wedi gorfod stopio oherwydd datgeliad hwyr o ddeunydd trydydd parti tanseiliol.

## Materion cydraddoldeb

**Rhywedd**
Yn 2011-12, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, sef 98%. Bu i gofnodi rhywedd dioddefwr wella i fyny at 75% yn 2011-12, ond nid yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Ethnigrwydd**
Yn 2011-12, dosbarthwyd 69% o ddiffynyddion troseddau treisio fel Gwyn, gyda 63% wedi eu nodi fel perthyn i'r dosbarth Gwyn Prydeinig (tri phwynt canrannol yn uwch na'r flwyddyn flaenorol). Nodwyd bod 7% o'r diffynyddion yn Asiaidd – lleihad o 1 pwynt canrannol o 2010-11, a nodwyd 10% arall fel Du – lleihad o 3 pwynt canrannol[40]. Er bod cofnodi ethnigrwydd dioddefwyr wedi gwella ychydig yn y flwyddyn ddiwethaf, ni chofnodir ychydig dan 70% o ethnigrwydd dioddefwyr o hyd, felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

[40] Ni ddatganodd ychydig dros 4% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar arestio, ac ni ddarparwyd ychydig dros 7% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu – cynnydd o 5% yn y flwyddyn flaenorol.

**Oed**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (60%) a 18-24 (21%). Roedd yn bryder i nodi bod bron i draean o ddiffynyddion (1,172) dan 24 oed, gyda 312 (ychydig dros 8%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 37 (ychydig dan 1%) yn 10-13 oed Mae cofnodi oed dioddefwyr wedi gwella hyd at 68%, ond nid yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Achos trais ieuenctid**

Cyhuddwyd diffynnydd dan 18 oed ar y dechrau am dreisio menyw ifanc dros 16 oed. Yn ystod yr ymchwiliad, dechreuodd yr heddlu bryderu bod y diffynnydd hefyd yn cael rhyw gyda merched dan 16 oed a siaradwyd â nifer o ferched oedd yn gysylltiedig ag ef. Arweiniodd hyn at ganfod 2 ferch oedd yn honni i'r diffynnydd eu treisio. Ar y dechrau fe gyhuddwyd y diffynnydd a'i roi ar remand am dreisio'r fenyw dros 16 oed. Gwnaethpwyd cais 'cyplysiad' llwyddiannus i gynnwys y rhai dan 16 oed. Arweiniodd treial ar y cyd at ryddfarnu'r diffynnydd o'r cyhuddiad o dreisio'r fenyw ifanc a rheithgor clo (dim penderfyniad) parthed y troseddau yn erbyn y ddwy dan 16 oed. Wedi ymgynghori â'r dioddefwyr (gydag un ohonynt yn amharod i fynd ymhellach), penderfynodd y Goron fod ail dreial yn briodol. Aeth yr achos i ail dreial yn hwyrach yn 2011 ac fe ddedfrydodd y rheithgor y diffynnydd yn unfrydol ar gyhuddiad o dreisio'r ddwy ferch. Cafodd ei ddedfrydu i 6 mlynedd o garchar.

## Gwaith trawslywodraeth ar dreisio

Mae'r CPS yn rhan o'r gwaith trawslywodraeth ar dreisio, a lywodraethir trwy Fforwm Trais Rhywiol y Swyddfa Gartref (Fforwm SV) a'r Grŵp Monitro Treisio. Cyfarfu'r Fforwm SV gyda grwpiau o'r sector gwirfoddol yn ogystal ag adrannau llywodraeth a chynhaliwyd dau is-grŵp – un ar ddioddefwyr gwrywaidd ac un ar bobl ifanc. Deliodd y fforwm hefyd ag ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr treisio, canolfannau treisio lleol, ISVAs a chyllid newydd i'r 13 o 'Eiriolwyr Pobl Ifanc'. Mae'r CPS hefyd wedi bwydo i mewn i ddatblygiad pecyn e-ddysgu ar dreisio.

## Materion CPS cenedlaethol

Adolygwyd Llawlyfr Treisio'r CPS a'i ddiweddaru yn 2011-12, a gellir dod o hyd iddo bellach ar wefan y CPS dan y pennawd Canllaw Cyfreithiol Treisio a Throseddau Rhywiol.

Yn ddiweddar mae'r CPS wedi datblygu canllaw cyfreithiol newydd ar Gyhuddiadau Trais yn gysylltiedig i Lofruddiaeth sy'n cael eu cadw ar ffeil. Mae'r canllaw yn sefydlu'r ffactorau y dylai erlynwyr eu hystyried wrth benderfynu p'un ai i gyhuddo neu barhau gydag erlyniad ar gyfer treisio, pan fydd y dioddefydd hefyd yn cael ei erlyn am lofruddio'r un dioddefydd.

Yn Hydref 2011, siaradodd y DPP yng nghynhadledd Awdurdod Erlyn y Gwasanaethau sy'n delio ag ymchwiliad ac erlyniad treisio a throseddau rhywiol. Amlinellodd y modd mae'r CPS wedi gwella ansawdd erlyniadau; a'r modd y mae'n cyfathrebu gyda dioddefwyr ac yn ymdrin â nhw.

**Llwyddiant erlyniad dwbl mewnol**

Llwyddodd tîm o gyfreithwyr mewnol y CPS i erlyn achos treisio hanesyddol yn ymwneud ag achos o dreisio a ddigwyddodd yn 1986. Rhoddwyd rhyddfarn i'r diffynnydd yn ei dreial cyntaf yn 1988. Galluogodd canfod tystiolaeth DNA newydd (nad oedd ar gael yn ystod y treial cyntaf) i'r CPS wneud cais llwyddiannus dan y darpariaethau "erlyniad dwbl".

Gwnaeth erlynwyr mewnol gais i'r Llys Apêl (am gais Erlyniad Dwbl) ac yn Llys y goron (ar gyfer y ple). Llediodd y diffynnydd yn euog ym Mawrth 2012.

Dywedodd y dioddefydd: '*Heb y tîm hen achosion a'r newid yn y gyfraith, ni fyddwn fyth wedi gallu cefnu ar hyn – er fy mod yn dal yn methu credu'r peth. O'r diwedd mae wedi colli pŵer dros fy mywyd. Dim ond gobeithio y bydd ei euogfarn yn amlygu pwysigrwydd y gwaith hwn ac yn annog menywod eraill i...ddod ymlaen. Deliwyd â'm hachos i gyda chydymdeimlad a gofal, yn llawer gwell na 25 mlynedd yn ôl pan gafodd ei sgubo dan y carped bron. Heb eich cefnogaeth dydw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi bod yn ddigon cryf i fynd trwy'r boen eto.*

Yn Ionawr 2012, traddododd Alison Saunders, Prif Erlynydd y Goron Llundain, araith amser cinio am dreisio yn Neuadd y Ddinas Llundain. Anogodd y gynulleidfa i herio mythau ac ystrydebau ac i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr trais rhywiol i adrodd ar droseddu.

Cyhoeddwyd *'Forging the links: Rape investigation and prosecution, a joint review by HMIC and HMCPSI*', yn Chwefror 2012. Mae'r adroddiad yn cynnwys rhai negeseuon positif i'r CPS yn nodi bod: "*Y rhan fwyaf o benderfyniadau cyhuddo treisio a adolygwyd wedi eu hystyried yn ofalus ac yn fanwl iawn*". Roedd y tîm archwilio hefyd wedi: "*canfod tystiolaeth o ddadansoddiad da o achosion treisio gan y CPS*". Croesawyd y casgliadau hyn gan y CPS. Gellir cael mynediad at yr adroddiad hwn trwy'r ddolen ganlynol. www.hmic.gov.uk/media/forging-the-links-rape-investigation-and-prosecution-20120228.pdf

## Unedau treisio a throseddau rhywiol difrifol

Mae chwech o Ardaloedd CPS (hanner y Gwasanaeth) nawr yn rhedeg Unedau Treisio a Throseddau Rhyw Difrifol (RASSO) neu Unedau Diogelu'r Cyhoedd (PPUau) yn delio â threisio a throseddau rhywiol difrifol – Llundain, Glannau Mersi a Swydd Gaer, De Ddwyrain Lloegr, Wessex, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber – gyda phump ohonynt yn gwella eu cyfradd achrediad yn ystod y flwyddyn. Mae'r achos canlynol yn arddangos y defnydd o Unedau RASSO.

**RASSO yn lleihau achrediad**

Estynnodd CPS Wessex eu Huned RASSO i gynnwys yr Ardal gyfan yn 2011, gan leihau'r amser a gymerodd o benderfyniad cwyn i gyhuddo yn sylweddol, a sicrhau dyddiadau treial cynharach gan ei gwneud yn haws i gadw cefnogaeth dioddefwyr. Mae'r Uned yn cynnwys erlynwyr sy'n angerddol am eu gwaith, ac sy'n deall ac yn gweithredu ymagwedd seiliedig ar deilyngdod i erlyniadau. Yna fe ddetholir yr holl eiriolwyr mewnol ac allanol yn ofalus, ac mae'r cyfan wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y cyd a ddarperir gan CPS Wessex a'r Gylchred Orllewinol. Tra'n cynnal nifer uchel o achosion, gostyngodd yr Uned RASSO achrediad o 15% yn y flwyddyn ddiwethaf mewn achosion treisio gan ddarparu cyfiawnder i nifer fwy o ddioddefwyr.

## Erlynyddion arbenigol treisio hyfforddedig ac aelodau'r Bar

Erbyn Chwefror 2012, roedd cyfanswm o 820[41] o erlynwyr wedi eu hyfforddi fel arbenigwyr treisio. Ym Mawrth 2012 i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, cyflawnodd y CPS hyfforddiant penodol dros 4 niwrnod i 29 o erlynwyr ar erlyn achosion treisio.

Yn 2011-12 achredodd y CPS nifer o gyrsiau troseddau rhywiol a drefnwyd gan y Bar ar gyfer ei aelodau, gan ddarparu siaradwyr i ddelio â pholisi CPS ar erlyn trais.

**Euogfarn heb ddioddefydd neu ddiffynnydd**

Cafwyd achos hynod o drasig yn ymwneud â dioddefydd a fu farw cyn y treial, ond yr oedd ei theulu yn dymuno i'r achos barhau. Roedd yr achos yn ymwneud â chyhuddiadau hanesyddol o dreisio geneuol, gwain a rhefrol dioddefydd a oedd yn wraig i'r diffynnydd ar y pryd, rhwng 2004 a 2006. Roedd y dioddefydd wedi ymddiried mewn cyfaill a adroddodd ar y mater i'r heddlu yn 2010. Yn dilyn cyngor cyn cyhuddo, cyhuddwyd y diffynnydd gyda phum cyhuddiad o dreisio. Gwadodd y diffynnydd ei fod wedi treisio ei wraig gan ddatgan fod unrhyw weithgaredd rhywiol wedi bod yn gydsyniol.

Dihangodd y diffynnydd ac ni ellid dod o hyd iddo ac yn anffodus bu farw'r dioddefydd cyn y treial. Bu'r CPS mewn cysylltiad â'i theulu ac roeddynt yn benderfynol eu bod eisiau i'r CPS geisio parhau gyda'r achos. Gwnaethpwyd cais tystiolaeth achlust llwyddiannus dan Adran 116 CJA 2003 i gynnwys cyfweliad tyst bregus y dioddefydd i dystiolaeth ac i fwrw ymlaen yn absenoldeb y diffynnydd. Aeth y treial ymlaen yn absenoldeb y diffynnydd ac fe'i cafwyd yn euog ar dri chyhuddiad o dreisio. Fe'i dedfrydwyd yn ei absenoldeb i gyfanswm o 15 mlynedd o garchar.

## Gwyrdroi cwrs cyfiawnder

[41] Erbyn Mawrth 2011, roedd 894 o arbenigwyr wedi derbyn hyfforddiant RASSO; fodd bynnag, o ganlyniad i ailstrwythuro Ardaloedd fe adawodd nifer o erlynwyr. Mewn cydnabyddiaeth o hyn, mae rhagor o arbenigwyr yn derbyn hyfforddiant.

Yng Ngorffennaf 2011, cyflwynodd y CPS ganllaw newydd i gynorthwyo erlynwyr i ystyried cyhuddo gwyrdroi cwrs cyfiawnder mewn achosion yn ymwneud â threisio ac/neu drais domestig. Pwysleisiodd y canllaw, a hysbyswyd gan ymgynghoriad cyhoeddus, yr angen i erlynwyr archwilio materion oedd yn sail i dynnu cyhuddiad yn ôl gan achwynydd, yn arbennig pan maent wedi eu rhoi dan bwysau neu wedi eu dychryn. Cyfeirir pob achos o'r fath at y DPP am gymeradwyaeth cyn iddynt fwrw ymlaen i gyhuddo am gyfnod o flwyddyn.

**Defnyddio DNA**

Euogfarnwyd gyrrwr cab bychan didrwydded yn Llundain o dreisio merch yn ei harddegau a'i ddedfrydu i naw mlynedd o garchar. Ychwanegwyd ei broffil DNA i'r gronfa ddata DNA yn dilyn ei arestio am ymosodiad honedig ar gyn gariad. Er na weithredwyd yn ei erbyn o ran yr ymosodiad, cadwyd ei broffil DNA ar y gronfa ddata a'i ddefnyddio'n hwyrach i'w gysylltu i'r achos o dreisio. Fe'i cafwyd yn euog yn dilyn ail dreial yn Llys y Goron Canol Llundain yn Rhagfyr 2011 (roedd y treial cyntaf wedi diweddu gyda rheithgor clo).

Mewn achos gwahanol, defnyddiodd dioddefydd ymosodiad creulon dactegau yr oedd wedi eu dysgu o wylio'r sioe deledu CSI. Cuddiodd ei gwallt ei hun a phoeri ar seddi car y diffynnydd i ganiatáu i'r heddlu brofi iddi fod yn y car. Cafwyd y diffynnydd yn euog o chwe chyhuddiad o dreisio, dau o herwgipio a dau o geisio herwgipio a'i ddedfrydu i ddedfryd amhenodol (gydag isafswm o 11 mlynedd).

## Materion dioddefwyr

Mae nifer o LSIPau Ardal yn cynnwys craffu ar achosion treisio i hysbysu dysgu lleol, ynghyd â monitro ansawdd ac asesiad ansoddol VAWG o ymgysylltiad cymunedol lleol.

Mae Uned PPU **CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr** ynghyd â'r Panel Craffu VAWG lleol wedi cynnwys mwy o asiantaethau cefnogaeth dioddefwyr a datblygu cyfathrebu cryf gyda Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAau) yn arwain at well ymgysylltiad a chefnogaeth i ddioddefwyr yn eu hachosion.

Mae rhai Ardaloedd yn gweithio gyda dioddefwyr lleol i nodi dulliau o wella eu herlyniadau. Er enghraifft, cyfarfu erlynwyr yn Ardal Gogledd Ddwyrain Lloegr gyda gweithwyr rhyw yn dilyn rhai achosion camdriniaeth rywiol a chynhaliodd erlynwyr yn Ardal De Ddwyrain Lloegr banel o oroeswyr treisio.

**Hyder dioddefwyr**


Cysylltodd mam dioddefydd treisio ac ymosodiad anweddus o oedran plentyn â'r holl asiantaethau i '*ganmol pawb oedd yn gysylltiedig â'n hachos – yn arbennig yr erlynwyr, ISVAau a'r heddlu*' wedi dedfrydu'r diffynnydd i dros 18 mlynedd o garchar.

Deliwyd yn ofalus â datgeliadau gan swyddogion cymwysedig, roedd cwnsel wedi eu cynnwys yn ystod y camau cynnar, cefnogodd yr ISVA y dioddefwyr a chyfathrebwyd am fesurau arbennig. Roedd y gweithiwr achos ar gael ar gyfer yr achos cyfan gan sicrhau fod y dioddefydd yn cwrdd â'r erlyniad.

# Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

Cynyddodd y gyfran o erlyniadau llwyddiannus am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio, yn 2011-12, yn dilyn lleihad bychan yn y flwyddyn flaenorol, fel y nodwyd yng Ngraff 4 isod.

**Graff 4: Cyfraddau euogfarn troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2007-08 i 2011-12**




O ddata'r CPS, fel yn Nhabl 7, mae'r nifer o ddiffynyddion a erlynwyd wedi gostwng gostwng ychydig o 6% i 8,334 o 8,862 yn 2010-11, gyda'r nifer o erlyniadau llwyddiannus [42] hefyd yn gostwng ychydig o 4% i 6,308[43]. Fodd bynnag, cynyddodd y gyfran o ddeilliannau llwyddiannus i 75.7%, gyda chynnydd o bron i 3 pwynt canrannol mewn pledion euog i 63% (83% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus).

**Tabl 7: Erlyniadau troseddau rhywiol a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2007 - 08 | | 2008 - 09 | | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 5,976 | 73.5% | 5,955 | 75.1% | 6,060 | 76.0% | 6,588 | 74.3% | 6,308 | 75.7% |
| Aflwyddiannus | 2,154 | 26.5% | 1,979 | 24.9% | 1,912 | 24.0% | 2,274 | 25.7% | 2,026 | 24.3% |
| **Cyfanswm** | **8,130** | | **7,934** | | **7,972** | | **8,862** | | **8,334** | |

## Perfformiad ardal

Mae'r tabl ar dudalen 60 yn darparu data erlyniadau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) yn ôl Ardal. Yn 2011-12, yr Ardaloedd oedd yn perfformio'n dda parthed cyfraddau athreuliad troseddau rhywiol, ac eithrio treisio, h.y. yr Ardaloedd gyda'r gyfran uchaf o achosion llwyddiannus, oedd:

[42] Deilliannau o gyhuddo i euogfarn
[43] Gostyngodd holl erlyniadau'r CPS mewn llysoedd ynadon o 6.3% ac yn Llys y Goron o 7.7%, yn gyffredinol o 6.5%.

**Tabl 8: Holl erlyniadau troseddau rhywiol, ac eithrio erlyniadau troseddau treisio, yn ôl canlyniad – yn amlygu'r tair Ardal CPS sy'n perfformio orau yn erbyn ffigurau cenedlaethol**

| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cenedlaethol | 6,308 | 75.7% | 2,026 | 24.3% | 8,334 |
| De Orllewin Lloegr | 397 | 80.7% | 95 | 19.3% | 492 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 708 | 80.4% | 173 | 19.6% | 881 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 703 | 80.4% | 171 | 19.6% | 874 |

Gostyngodd De Orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr eu cyfradd achrediad 2010-11 o dros 2 bwynt canrannol a Gogledd Orllewin Lloegr o 5.6 pwynt canrannol. Ar y cyfan, gwellodd chwech o Ardaloedd eu deilliannau erlyn o dros 2 bwynt canrannol, gyda dau dros 5 pwynt canrannol. Roedd yr Ardaloedd yn erlyn y nifer uchaf o droseddau rhyw yn Llundain 1,442 (69.8% yn llwyddiannus – cynnydd o 1.4 pwynt canrannol o 2010-11); Gogledd Orllewin Lloegr 874 (80.4% yn llwyddiannus – cynnydd o 5.5 pwynt canrannol) a Gorllewin Canolbarth Lloegr 881 (80.4% yn llwyddiannus – cynnydd o 1.8 pwynt canrannol o 2010-11).

**Euogfarn tystiolaeth amgylchiadol**

Yn dilyn cyfnod o droseddau rhywiol cynyddol o fewn 48 awr - achosion o amlygu yn cynyddu i ymosodiad rhywiol trwy dreiddiad - bu'r heddlu yn gweithio gyda'r CPS o gyfnod cynnar. Lleolodd yr heddlu'r troseddwr trwy adnabod dillad ar CCTV. Gweithiodd y CPS yn agos gydag ymchwilwyr i ddadansoddi'r holl awgrymau tystiolaeth oedd ar gael i adeiladu beth a ddaeth yn achos amgylchiadol cryf tra bod y diffynnydd yn y ddalfa, gan gynnwys tynnu lluniau o ddillad nodweddiadol y diffynnydd oedd yn adnabyddus i'r dioddefwyr, gan nodi i'r diffynnydd wneud sylwadau a defnyddio ymadroddion tebyg gyda'i ddioddefwyr i gyd a bod deunydd ysgrifenedig yng nghyfeiriad ei gartref yn atseinio'r sylwadau hyn. Sicrhaodd y CPS fod y CCTV yn dangos osgo a dillad y diffynnydd, a'r llwybr i'w gartref ac oddi yno i'r Rheithgor a lleoliad y troseddau. Roedd hyn yn cyd-fynd â'i ddull o weithredu a thystiolaeth safle cell a gasglwyd o'i ffôn. Roedd y dystiolaeth amgylchiadol yn gryf ac fe alluogodd y cydweithio hyn i fanteisio ar yr holl gyfleoedd tystiolaethol a chreu achos cryf. Cafodd y diffynnydd euogfarn yn dilyn treial a'i ddedfrydu i ddedfryd warchodol helaeth gyda chyfnod trwydded estynedig a gofyniad i gofrestru ar y gofrestr troseddau rhywiol.

## Materion cydraddoldeb[44]

**Rhywedd**
Yn 2011-12, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, yn 97%, fel yn 2010-11.

**Ethnigrwydd**
Yn 2010-11, nodwyd bod 66% o ddiffynyddion a erlynwyd am droseddau rhywiol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig ac roedd ychydig dan 72% wedi eu categoreiddio fel Gwyn (lleihad bychan o 2010-11). 8% o ddiffynyddion a ddynodwyd yn Asiaidd, a 6% fel Du, gyda ffigyrau tebyg y flwyddyn flaenorol[45].

**Oed**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (66%) a 18-24 (17%).
Yn debyg i ddata treisio, roedd yn peri gofid i ni nodi fod bron i chwarter y diffynyddion (1,855) dan 24 oed, gydag ychydig dan 5% o'r diffynyddion (395) yn 14-17 oed ac ychydig dan 1% (79) yn 10-13 oed.

---

[44] Mae'r data ar ddioddefwyr yn dod gan y Gwasanaeth Rheolaeth Tystion ond nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod o ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio, gan fod y wybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel diffynnydd yn unig.

[45] Ni ddatganodd ychydig dros 5% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ychydig dros 6% o ethnigrwydd diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu – yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

# Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod

## Priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd

Ystyrir perfformiad dan y gyfundrefn sicrwydd ansawdd VAWG yn ôl Ardaloedd a'u hadrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol gan weithredu i unioni ble fo angen. Mae yna tua 90 o erlynwyr arbenigol priodas dan orfod (FM) a thrais seiliedig ar urddas (HBV).

Yn 2011-12 erlynwyd 42 achos o FM, gyda 55% yn llwyddo, sy'n gynnydd o 6 pwynt canrannol o 2010-11. Parthed achosion HBV, erlynwyd 172 o achosion, gyda 50% yn llwyddiannus, sy'n ostyngiad bychan o 52% yn y flwyddyn flaenorol[46].

Yr Ardaloedd yn erlyn y nifer mwyaf o erlyniadau FM a HBV oedd Llundain, Gogledd Orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber.

## Arfer da Ardal

Mae nifer o Ardaloedd wedi arddangos arfer da ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas ac mae rhai Ardaloedd wedi cynnal cynadleddau lleol. Ymgynghorodd Ardal Gogledd Orllewin Lloegr â dioddefwyr FM a HBV i ddelio â gwelliannau mewn erlyniadau.

**Protocolau ac ymwybyddiaeth**

Gweithiodd Glannau Mersi a Swydd Gaer gyda grŵp llywio lleol i ddatblygu protocol FM/HBV i'w ddefnyddio mewn Byrddau Diogelu Lleol, fe ddatblygwyd pecyn offeryn hyfforddiant amlasiantaethol a chynhaliwyd cynhadledd i lansio llyfryn trais domestig yn cynnwys materion ymwybyddiaeth ar FM a HBV. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y nifer o Orchmynion Diogelu Priodas Dan Orfod a'r nifer o ddioddefwyr yn cysylltu ag asiantaethau cefnogaeth lleol.

Cynhaliodd Tafwys a Chiltern weithdai ar briodas dan orfod i fyfyrwyr a grwpiau sector gwirfoddol lleol a chynnwys gwybodaeth ar y wefan leol.

**Cefnogaeth CPS ar gyfer awdurdodau lleol**

Cysylltodd gweithiwr awdurdod lleol â CPS Tafwys a Chiltern i ganmol eu gwefan llawn gwybodaeth ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas. Fel rhywun oedd yn gweithio gyda ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phlant newydd i'r Deyrnas Unedig, teimlai fod yr wybodaeth yn gynhwysfawr iawn.

[46] Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

## Deddfwriaeth priodas dan orfod

Cyflwynodd y CPS ymateb i *Bapur Ymgynghorol y Swyddfa Gartref ar Briodas dan Orfod* ym Mawrth 2012. Bydd erlyniad torri gorchmynion Amddiffyn priodas dan orfod sifil yn cael ei gyflawni gan y CPS; cyflwynir hyfforddiant ar hyn ac agweddau eraill o briodas dan orfod maes o law.

## Hyfforddiant

Bydd hyfforddiant ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas yn cael ei ddiweddaru yn 2012-13, yn cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth newydd priodas dan orfod ar gyfer erlynwyr arbenigol.

**Dioddefydd ifanc trais seiliedig ar urddas**

Roedd achos yn Ne Ddwyrain Lloegr yn ymwneud â cham-drin dioddefydd 15 oed yn gorfforol. Ymosodwyd arni a'i rheoli gan ei rhieni oedd yn gwrthwynebu i'r ffaith ei bod yn dilyn bywyd mwy 'gorllewinol'. Roedd y broses gyfan yn amlwg yn anodd iawn iddi, yn arbennig gan fod rhaid iddi symud allan o gartref ei theulu ac roedd yn bell oddi wrth ei chwiorydd.

Dechreuodd fynegi rhwystredigaeth gydag Achos y Llys Teulu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac wedi ychydig fisoedd fe ddynododd ei bod eisiau mynd adref am nad oedd eisiau i'w rhieni fynd i'r carchar. Er bod ei thad wedi cyflwyno pledion euog, roedd ei mam wedi pledio'n ddieuog. Roedd pryderon gwirioneddol am ddyfodol y dioddefydd a'i chwiorydd iau (yn cynnwys ofn y byddai ei rhieni yn cyflawni eu bygythiad i'w hanfon dramor) felly penderfynwyd bwrw ymlaen â'r achos a chael gwŷs tyst rhag ofn. Ar ddiwrnod cyntaf y treial cynigiodd y fam ble derbyniol.

Roedd yn achos sensitif ac yn benderfyniad anodd i fwrw ymlaen â'r achos troseddol yn erbyn dymuniadau'r dioddefydd. Mae'n enghraifft o'r anhawster yn yr achosion hyn.

## Llurgunio Organau Rhywiol Menywod

Cyhoeddodd y CPS Ganllaw Cyfreithiol ar Lurgunio Organau Rhywiol Menywod (FGM) ym Medi 2011. Mae'r Canllaw Cyfreithiol yn darparu canllaw ymarferol a chyfreithiol ar ddelio gydag achosion llurgunio organau rhywiol menywod ac yn amlinellu'r heriau y gall erlynwyr wynebu wrth ddod ag achos i'r llys, yn arbennig ble gallai'r dioddefydd dynnu ei thystiolaeth yn ôl oherwydd pwysau cymdeithasol a diwylliannol. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i ddeall y cefndir i arferion llurgunio organau rhywiol menywod wrth erlyn achosion o'r fath.

Ers lansio'r canllaw cyfreithiol llurgunio organau rhywiol menywod ym Medi 2011, rydym wedi gwneud ymroddiad i fonitro a gwerthuso achosion llurgunio am gyfnod o 12 mis. Gofynnwyd i Ardaloedd hysbysu'r Gyfarwyddfa Strategaeth a Pholisi o achosion llurgunio organau rhywiol menywod oedd wedi eu cyfeirio atynt gan yr heddlu. Ni chafwyd unrhyw erlyniadau hyd yn hyn. Dim ond yr achosion hynny a gyfeirir atynt gan yr Heddlu y gall y CPS erlyn. Amcan y fenter monitro hon yw nodi unrhyw dueddiadau er mwyn gallu delio â nhw. Rydym yn gweithio gyda Grŵp Llywio Trawslywodraeth ar lurgunio organau rhywiol menywod a gyda'n partneriaid i gynorthwyo a chefnogi'r trydydd sector.

# Camdriniaeth plant

Yn 2011-12, dynododd data gan y CPS ar gamdriniaeth plant leihad yn y nifer o erlyniadau am ddynladdiad plant, o 27 i 17, ond deilliannau llwyddiannus mewn dros 88% o'r achosion hyn[47]. Roedd yna ostyngiad yn y nifer o droseddau yn erbyn y sawl a erlynwyd, o 2,953 i 2,569 yn ogystal â gostyngiad yn y nifer o ddeilliannau llwyddiannus o 74% i 71.4%. Bu peth gostyngiad hefyd yn nifer yr erlyniadau troseddau rhywiol, o 4,794 i 4,655, ond cafwyd cynnydd yn y deilliannau llwyddiannus o 2010-11 i ychydig dan 76%. Ceir manylion pellach yn Nhabl 9.

**Tabl 9: Erlyniadau camdriniaeth plant**

| A Lladdiad | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| 2007-2008 | 20 | 69.0% | 9 | 31.0% | 29 |
| 2008-2009 | 33 | 75.0% | 11 | 25.0% | 44 |
| 2009-2010 | 33 | 82.5% | 7 | 17.5% | 40 |
| 2010-2011 | 24 | 88.9% | 3 | 11.1% | 27 |
| 2011-2012 | 15 | 88.2% | 2 | 11.8% | 17 |

| B Troseddau yn erbyn yr unigolyn | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| 2007-2008 | 1,686 | 72.1% | 651 | 27.9% | 2,337 |
| 2008-2009 | 1,514 | 72.9% | 563 | 27.1% | 2,077 |
| 2009-2010 | 1,896 | 72.4% | 723 | 27.6% | 2,619 |
| 2010-2011 | 2,186 | 74.0% | 767 | 26.0% | 2,953 |
| 2011-2012 | 1,835 | 71.4% | 734 | 28.6% | 2,569 |

| C Troseddau Rhywiol | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| 2007-2008 | 2,841 | 72.1% | 1,100 | 27.9% | 3,941 |
| 2008-2009 | 3,011 | 74.7% | 1,018 | 25.3% | 4,029 |
| 2009-2010 | 3,133 | 75.7% | 1,004 | 24.3% | 4,137 |
| 2010-2011 | 3,551 | 74.1% | 1,243 | 25.9% | 4,794 |
| 2011-2012 | 3,530 | 75.8% | 1,125 | 24.2% | 4,655 |

Dynion oedd y diffynyddion mewn 65% o erlyniadau lladdiad; 73% o droseddau yn erbyn yr unigolyn a 98% o droseddau rhywiol.

[47] Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Cydweithiodd yr heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a Barnado's gyda'r CPS ar achos yn ymwneud â dau ddyn yn talu am wasanaethau rhywiol gyda phlentyn. Carcharwyd y dynion am ychydig dros bedair blynedd a thair blynedd.

## Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Eleni cafwyd ffocws mawr ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Ynghyd ag asiantaethau eraill, mae'r CPS yn ymroddedig i ddelio â chamfanteisio ar rai o aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas, gan gydnabod mai camdriniaeth plant yw hyn, adeiladu achosion cadarn camfanteisio'n rhywiol ar blant a'u herlyn yn effeithiol.

**Cylch pedoffiliaid**

Darostyngodd cylch pedoffiliaid dan arweiniad cwpl oedd, dros gyfnod o 18 mis, wedi cam-drin eu plant eu hunain, merch 4 oed a bachgen 11 yn rhywiol, gan ei ffilmio a'i ddosbarthu ar y rhyngrwyd i'w ddefnyddio gan bedoffiliaid eraill. Trefnwyd hefyd i ddiffynyddion gwrywaidd eraill ymweld â'u cartref a cham-drin eu plant. Erlynwyd cyfanswm o 8 diffynnydd yn llwyddiannus ar ddítiad yn cynnwys 124 cyhuddiad o droseddau rhywiol yn erbyn plant.

Paratowyd yr achos a'i gyflwyno ar gyfer treial gan dîm mewnol. Ar y dechrau fe ddedfrydwyd un diffynnydd i garchar i ddiogelu'r cyhoedd gyda thymor pendant damcaniaethol o 12 mlynedd ac un arall i 4 mlynedd o garchar. Cyfeiriwyd yr achos at y Llys Apêl a gytunodd nad oedd y dedfrydau a roddwyd i'r ddau yma, ac i un arall, yn ddigon llym. Cynyddwyd y dedfrydau i garchariad am oes, gyda thymor pendant damcaniaethol o 20 mlynedd, 8 mlynedd a 13 mlynedd.

Cyfrannodd y CPS i ddatblygiad y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol "*Tackling Child Sexual Exploitation*" a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2011. Mae'r cynllun gweithredu yn cydnabod gwaith da parhaus, ond hefyd yn amlygu meysydd ble mae angen gwneud mwy ac yn sefydlu camau gweithredu penodol ar gyfer y Llywodraeth, asiantaethau lleol a'r sector gwirfoddol a chymunedol.

Mae gan y CPS ddwy weithred benodol ac mae'n sicrhau cynnydd da tuag at gwblhau'r ddwy yn amserol. Y camau gweithredu yw:

- Gweithio i wella effeithlonrwydd erlyniadau; hyrwyddo enghreifftiau o arfer da parthed camfanteisio'n rhywiol ar blant; a gweithio i gynyddu'r defnydd o 'fesurau arbennig' mewn achosion priodol. Mae astudiaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael eu casglu i nodi a lledaenu arfer da ledled y CPS. Byddwn hefyd yn ystyried camau gweithredu'n deillio o'r ymchwil mesurau arbennig.

- Yn unol ag argymhelliad 18 Adolygiad y Farwnes Stern ar '*Sut y delir â chwynion treisio gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr*' (Swyddfa Gartref 2010), byddwn yn ceisio ailsefydlu trefniadau gwirfoddol effeithiol gydag awdurdodau lleol i sicrhau y mabwysiadir y protocol ar gyfnewid gwybodaeth a'i ddefnyddio i sicrhau'r effaith orau. (Mae'r protocol yn ymwneud â "deunydd trydydd parti" a gedwir gan awdurdodau lleol. Bydd datgeliad gwirfoddol o'r deunydd hwn yn sicrhau y gellir delio'n effeithiol â gwybodaeth allai danseilio erlyniad yn effeithiol ar gam cynnar yn yr achos).

**Paratoi at Ryw**

Erlynwyd achos o baratoi at ryw yn Rochdale a ollyngwyd dair blynedd yn ôl yn llwyddiannus yn 2011-12, gan ddelio ag agweddau o gam-drin plant, paedoffilia, puteindra plant, masnachu mewn pobl a threisio. Cydnabu'r achos gymhlethdod erlyn achosion o'r fath gyda grwpiau o ddiffynyddion a dioddefwyr hynod o fregus. Bydd y DPP yn arwain adolygiad i'r achos yn haf 2012. Bydd angen dysgu gwersi gan y panel a bydd ymarfer i wella ein herlyniadau o achosion paratoi at ryw grŵp yn cael ei nodi a'i ddosbarthu.

Mae'r CPS yn trefnu seminar camfanteisio'n rhywiol ar blant yn Hydref 2012 a fydd yn uno erlynwyr i rannu profiadau a chlywed gan heddlu/erlynwyr/cynrychiolwyr trydydd sector profiadol ynglŷn â'r materion penodol sy'n berthnasol i erlyn achosion camfanteisio.

**Cytundeb gyda'r Ganolfan Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Diogelu Ar-lein (CEOP)**

Yn 2011, lluniodd y CPS gytundeb gyda CEOP i ddarparu canllaw ar y cyd i erlynwyr ac ymchwilwyr ar yr ymchwiliadau mwyaf difrifol yn ymwneud â cham-drin plant. Bydd yr erlynydd ar gael trwy gydol yr achos i ddarparu canllaw arbenigol a chyngor fel bydd angen.

## Gangiau

Cynrychiolir y CPS ar grŵp Swyddogion y Llywodraeth "Ymchwiliad i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn gangiau a grwpiau" y Comisiynydd Plant, y lansiwyd Cam 1 yn Hydref 2011. Mae gwaith y CPS gyda gangiau wedi mynd i'r afael â threisio a chamdriniaeth rywiol aelodau benywaidd gangiau. Mae'r CPS yn casglu astudiaethau achos ar draws y CPS i ddysgu gwersi a rhannu arfer da.

**Treisio mewn gangiau**

Mewn achos yn Llundain, cafwyd dau aelod o gang 13 oed yn euog o dreisio merch 11 oed. Roedd yr achos cyntaf yn ymwneud ag un bachgen yn perswadio’r dioddefydd i gael rhyw rhefrol yn anfodlon. Yr wythnos ganlynol, hysbysodd grŵp o fechgyn hi y byddai’n ‘rhaid iddi ei wneud gyda phob un ohonynt’, Eto fe’i gorfodwyd i gytuno, gan lefain trwy gydol y profiad. Dywedodd wrth weithiwr iechyd yn hwyrach iddi gytuno ond yng nghyd-destun peidio bod eisiau mynd at yr heddlu. Cafwyd digwyddiad arall eto’n hwyrach. Yn gyntaf nid oedd y dioddefydd eisiau cydweithredu â’r heddlu a phan wnaeth, roedd yn rhaid iddi symud allan o’r ardal oherwydd gelyniaeth ieuenctid y gymuned.

Erlynodd y CPS yr achos yn gadarn gyda’r cyfreithiwr adolygol yn defnyddio ymagwedd seiliedig ar rinweddau. Roedd adroddiad a gallu’r dioddefydd yn codi cwestiynau i’r erlyniad oedd yn ymwybodol ei bod yn debygol iddi gael ei thargedu’n benodol oherwydd y gwendidau hyn. Fodd bynnag, yn drech na’r pryderon hyn oedd rhinweddau ei thystiolaeth, gan roi disgrifiad clir o’i hymosodwyr a chadarnhau natur yr ymosodiadau a ddioddefodd. Adlewyrchwyd hyn yng nghasgliadau’r barnwr parthed y dioddefydd, gan dderbyn ei thystiolaeth, a oedd yn cynnwys rhywfaint o ymwneud gwirfoddol â’r diffynyddion a derbyniad nad oedd wedi gwrthod cydsyniad yn bendant, tra’n gwrthod yr awgrym o gydsyniad parod. Cafwyd y ddau fachgen yn euog a’u dedfrydu i’w cadw yn y ddalfa. Gwnaeth y CPS hefyd geisiadau llwyddiannus am orchmynion ataliol parthed y ddau ddiffynnydd o ystyried y cysylltiad cefndirol gyda’r diffynyddion yn yr ardal.

## Grŵp Llywio Trawslywodraeth Tystion Bregus ac Ofnus

Sefydlodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder grŵp llywio rhanddeiliaid trawslywodraeth yn ddiweddar sy’n uno arweinwyr polisi ac yn hyrwyddo ymagwedd gyfunol gyda gwaith yn ymwneud â dioddefwyr a thystion bregus ac ofnus. Mae’r grŵp llywio yn fforwm i hyrwyddo ymagwedd gyfunol o weithio gydag adrannau llywodraeth eraill i gadw'r mesurau/cefnogaeth sydd ar gael dan adolygiad i gynorthwyo dioddefwyr a thystion bregus ac ofnus trwy gydol y broses cyfiawnder troseddol. Mae’r CPS yn aelod o’r pwyllgor llywio, gan ei gydnabod fel fforwm gwerthfawr i sicrhau y bodlonir anghenion dioddefwyr a thystion.

**Ymosodiadau rhywiol ar rai yn eu harddegau**

Roedd bachgen 17 oed yn rheibus a diddiwedd yn ei dargedu ar ferched yn eu harddegau. Daeth yn gyfarwydd â deg o ferched o ifanc rhwng 10 ac 17 oed oedd i gyd yn anesmwyth a bregus i gyd, gan roi pwysau arnynt i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb dalu sylw i'w gwir ddymuniadau, ac yn ffilmio eu gweithgareddau rhywiol ar adegau. Wedi cyngor gan yr uned RASSO, fe'i cyhuddwyd â chyfanswm o 23 cyhuddiad yn cynnwys treisio, gweithgaredd rhywiol â phlentyn a chreu delweddau anweddus. Plediodd yn euog i dri chyhuddiad o weithgaredd rhywiol a chafodd euogfarn ar 12 cyhuddiad pellach wedi treial yn cynnwys un cyhuddiad o dreisio. Fe'i canfuwyd i fod yn beryglus a'i ddedfrydu i ddedfryd estynedig o 5 mlynedd.

# Masnachu mewn pobl

Yn 2011-12 erlynwyd 142 o ddiffynyddion am droseddau masnachu mewn pobl, cynnydd o 103 yn 2010-11, gyda 66% o ddeilliannau llwyddiannus[48]. Nodwyd yr achosion hyn yn defnyddio lluman 'masnachu'[49] a ddefnyddir i ddarparu data deilliannau[50]. Cynyddodd llumanu o droseddau o 45% i 48% yn y flwyddyn ddiwethaf, ond cydnabyddir fod angen gwaith pellach yn 2012-13 i wella cadernid y data. Cynyddodd y nifer o achosion a erlynwyd o 116 i 150 – darperir y data hwn mewn dogfennaeth gyhoeddus arall megis cwestiynau seneddol.

**Tabl 10: Erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2010 - 2011 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Euogfarnau | 94 | 66.2 |
| Aflwyddiannus | 48 | 33.8 |
| **Cyfanswm** | **142** | |

Roedd 84% o'r holl ddiffynyddion y cofnodwyd eu rhywedd yn ddynion[51]. Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed. Cofnodwyd 80 o ddioddefwyr, gyda 54% yn cofnodi eu rhywedd, nifer annigonol i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Gwaith trawslywodraeth

Cyhoeddodd y Llywodraeth y penderfyniad i ymuno yng Nghyfarwyddeb yr UE ar Fasnachu mewn Pobl ym Mawrth 2011 ac mae'n gweithio'n agos gyda'r Comisiwn ar ei weithrediad. Cynrychiolir y CPS ar grŵp strategol sy'n goruchwylio ei weithrediad, yn cynnwys diogelu dioddefwyr.

## Dioddefwyr

Yn gynnar yn 2011, cymrodd y CPS ran mewn DVD i ddioddefwyr masnachu, ynghyd â phartneriaid sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr ar wahanol gamau. Mae'r DVD mewn modylau a'i fwriad yw i'w chwarae i ddioddefwyr yn ystod eu cyfnod o adferiad a myfyrio. Bydd hyn yn eu darparu â gwybodaeth ynglŷn â'u dewisiadau i hysbysu eu penderfyniad ynglŷn â beth maent eisiau gwneud. AR y cyd â Datganiad Polisi'r CPS ar erlyn achosion masnachu mewn pobl, gobeithir y bydd hyn yn annog mwy o ddioddefwyr i gefnogi ymchwiliadau ac erlyniadau.

[48] Mae'r nifer fechan o achosion, ynghyd â'r diffyg llumanu cadarn, yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.
[49] Troseddau a lumanir yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59) a Deddf Lloches a Deddf Mewnfudo [Triniaeth o Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3) a Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 adran 71. Gosodir y faner ar gychwyn yr achos; bydd y faner hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylid gosod baner ar y cam hwnnw.
[50] Ni chedwir data troseddau yn ôl diffynnydd neu ganlyniad; felly sefydlwyd lluman i ddarparu data canlyniad yn ôl diffynnydd.
[51] Cofnodwyd 99% o rywedd.

**Annog dioddefwyr**

Denwyd myfyriwr Rwmanaidd ifanc i Loegr gan ddau fasnachwr, gyda'r addewid o swydd barchus. O fewn 24 awr i gyrraedd fe'i gorfodwyd i weithio mewn puteindy. Dychwelodd i'w gwlad wedi eu harestio. Gweithiodd erlynydd y CPS yn agos gydag ymchwilwyr i adeiladu achos cryf ac i'w cefnogi i ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig i roi tystiolaeth yn y treial. Cafwyd y diffynyddion yn euog a'i ddedfrydu i 10.5 a naw mlynedd o garchar yr un. Gweithiodd yr erlynydd gyda'r wasg leol i roi sylw i'r achos, gan dalu teyrnged i ddewrder y dioddefydd ac annog dioddefwyr eraill a fasnachwyd i ddod ymlaen.

## Gwaith rhyngwladol

Mae'r CPS yn chwarae rhan bwysig mewn gweithio gyda gwledydd eraill i wella ymchwiliadau tramor a chydweithrediad rhyngwladol i gefnogi erlyniadau yn y Deyrnas Unedig. Cafwyd gwaith allweddol gyda Fietnam, un o'r prif wledydd ffynonellau ar gyfer dioddefwyr masnachu sy'n blant a Nigeria, prif wlad ffynhonnell dioddefwyr benywaidd masnachu'r Deyrnas Unedig.

**Masnachu o'r Deyrnas Unedig**

Dedfrydwyd y gŵr cyntaf i gael euogfarn am fasnachu pobl allan o'r Deyrnas Unedig, mewn achos yn ymwneud â dwy ferch Nigeraidd, i 20 mlynedd o garchar yng Ngorffennaf 2011. Rheolwyd y dioddefwyr 14 ac 16 oed gan ddefodau Juju, eu darostwng i gamdriniaeth rywiol a thrais ac fe'i carcharwyd yng nghartref y diffynnydd i'w masnachu i Sbaen a Gwlad Groeg fel puteiniaid.

Roedd y diffynnydd yn chwaraewr allweddol mewn rhwydwaith soffistigedig o fasnachwyr mewn pobl o Orllewin Affrica sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig. Ystyrir yr achos i fod y cyntaf o'i fath yn Ewrop i gynnwys erlyniad yn gysylltiedig i arferion Juju, a dyma'r tro cyntaf y cafwyd erlyniad am fasnachu allan o'r Deyrnas Unedig.

# Puteindra

Yn 2011-12 cafwyd 80 erlyniad am reoli puteindra o gymharu â 111 yn y flwyddyn flaenorol. Amnewidiwyd troseddau plagio pen ffordd dan A1(1)(a) ac A1(1)(b) y Ddeddf Troseddau Rhyw 1985 gydag A51A Deddf Troseddau Rhyw 2003 – gyda chynnydd i 305 yn cael eu herlyn dan yr adran hon. Dim ond saith A53A o droseddau Deddf Troseddau Rhyw 2003 o daliad am wasanaethau rhywiol gan butain sy'n amodol i orfodaeth neu gamfanteisio a gyhuddwyd yn 2011-12. Gostyngodd erlyniadau am osod cardiau hysbysebu puteindra mewn blychau ffôn cyhoeddus yn ddramatig o 331 o erlyniadau yn 2010-11 i 149 yn 2011-12. Mae Tabl 11 yn amlinellu'r data CPS a gasglwyd ar buteindra[52].

**Tabl 11: Erlyniadau Troseddau VAWG: troseddau puteindra**

| | 2007 - 2008 | 2008 - 2009 | 2009 - 2010 | 2010 - 2011 | 2011- 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| **A Rheoli puteindra** | | | | | |
| Deddf Troseddau Rhywiol (2003) {52} | 16 | 17 | 11 | 24 | 19 |
| Deddf Troseddau Rhywiol (2003) {53} | 67 | 93 | 87 | 87 | 61 |
| **CYFANSWM** | **83** | **110** | **98** | **111** | **80** |

| B Cadw puteindai | 2007 - 2008 | 2008 - 2009 | 2009 - 2010 | 2010 - 2011 | 2011- 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {33} | 56 | 83 | 39 | 48 | 35 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {33A o Atodlen 2} | 84 | 130 | 70 | 106 | 92 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {34} | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Deddf Troseddau Rhywiol {35(1)} | 1 | 6 | 2 | 3 | 3 |
| Deddf Troseddau Rhywiol {36} | 1 | 2 | 3 | 0 | 2 |
| Deddf Troseddau Rhyw 2003 { 53A }[53] | 0 | 0 | 0 | 40 | 7 |
| **CYFANSWM** | **142** | **221** | **114** | **197** | **140** |

[52] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd.
Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro, ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.
[53] Yn 2010 gwnaeth trosedd newydd A53A y Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 y rhai sy'n addo talu am wasanaethau rhywiol gan butain sy'n amodol i orfodaeth neu gamfanteisio yn droseddwyr.

| C Plagio Pen Stryd | 2007 - 2008 | 2008 - 2009 | 2009 - 2010 | 2010 - 2011 | 2011- 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {1(1)(a)} | 439 | 331 | 375 | 161 | 7 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {1(1)(b)} | 13 | 10 | 21 | 5 | 0 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {2(1)} | 82 | 24 | 23 | 38 | 2 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 {51A}[54] | 0 | 0 | 0 | 123 | 305 |
| **CYFANSWM** | **534** | **365** | **419** | **327** | **314** |

| D Hysbysebu puteindra | 2007 - 2008 | 2008 - 2009 | 2009 - 2010 | 2010 - 2011 | 2011- 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 {46} | 330 | 349 | 457 | 331 | 149 |

**Gweithwyr rhyw a fasnachwyd**

Twyllodd gŵr Lithwanaidd fenyw ifanc o Ddwyrain Ewrop i ddod i'r Deyrnas Unedig ar gyfer puteindra. Roedd yr achos yn cynnwys trais corfforol a rhywiol. Roedd nifer o'r tystion yn wladolion tramor heb fawr o gefnogaeth gan deulu a ffrindiau, gyda rhwystrau ieithyddol a rhai gydag anawsterau dysgu. Roedd materion cefnogi tystion yn heriol. Cafodd yr achos sylw sylweddol yn y wasg a chodwyd rhai materion datgeliad cymhleth ar y pryd pan nad oedd y swyddog yn yr achos ar gael. Cafwyd y diffynnydd yn euog o droseddau rhywiol difrifol yn cynnwys troseddau treisio. Apeliwyd yn erbyn y ddedfryd, oedd yn un o 7.5 mlynedd i ddechrau, trwy Ddedfryd Rhy Drugarog a'i chynyddu i 11 mlynedd.

## Materion cenedlaethol

Defnyddir Gorchmynion Ymgysylltu â Chefnogaeth (ESOs) yn gynyddol fel dedfryd amgen i ddirwy i'r rhai a geir yn euog o sefyllian neu lithio yn y stryd yn gyson. Mae'r gorchmynion hyn yn delio ag achosion gwreiddiol puteindra ar gyfer pob gweithiwr rhyw ac yn canfod ffyrdd iddynt adael byd puteindra.

Ym Mawrth 2012, cyhoeddwyd cynllun gweithredu trawslywodraeth VAWG oedd yn cynnwys puteindra am y tro cyntaf, yn unol â strategaeth VAWG y CPS.

[54] Parthed erlyniadau, cyflwynwyd trosedd newydd A51A Deddf Troseddau Rhyw 2003 yn 2010 i unigolyn ar y stryd neu mewn cyhoeddus yn ceisio caffael gwasanaeth rhywiol fel putain gan rywun arall. Mae hyn yn cynnwys unigolyn mewn cerbyd modur yn y stryd neu mewn lle cyhoeddus, a chymerodd le troseddau plagio pen stryd a loetran dyfal dan A 1 a 2 SOA 1985.

## Canllaw puteindra

Yn 2011, gweithiodd y CPS gyda'r Swyddfa Gartref ar eu hadolygiad o arfer effeithiol a gydag ACPO ar eu strategaeth puteindra. Mae Canllaw'r CPS yn adlewyrchu'r ddau gyhoeddiad, gan annog gweithwyr rhyw i ganfod llwybrau i adael y gwaith hwn, trin y rhai dan 18 fel dioddefwyr camdriniaeth plant a darparu meini prawf i asesu pryd ac os ddylid erlyn 'morwynion'.

### Gemau Llundain 2012

Gweithiodd y CPS gyda swyddfa Maer Llundain a phartneriaid eraill ar ymateb effeithiol i gamfanteisio ar buteindra a masnachu mewn pobl o flaen llaw i'r Gemau Olympaidd. Ceisiodd nifer o fentrau leihau hysbysebion rhyw mewn papurau newydd, codi ymwybyddiaeth o ddeddfau'r Deyrnas Unedig a hyrwyddo manylion ble gall dioddefwyr adrodd a cheisio cymorth.

## Cefnogaeth i ddioddefwyr

Yn hanesyddol mae'r nifer o fenywod sy'n ymwneud â phuteindra ac yn adrodd am droseddau yn eu herbyn wedi bod yn isel, yn aml oherwydd ofn cynhenid o gael eu herlyn am eu gweithgareddau troseddol eu hunain (fel rhedeg puteindy, mewnfudo neu droseddau cyffuriau). Mae cyflwyniad cenedlaethol y cynlluniau 'Ugly Mug' sy'n caniatáu i bobl mewn puteindra adrodd gwybodaeth ar ddigwyddiadau o drais a ddioddefont, neu i ddarparu gwybodaeth am gleientiaid bygythiol neu beryglus yn ddienw yn dechrau mynd i'r afael â hyn.

Mae gwaith yng Nglannau Mersi wedi dangos pwysigrwydd ac effaith bositif gweithio ar y cyd fel asiantaeth i annog menywod i adrodd ar droseddau. Mae heddlu Glannau Mersi a'r CPS yn trin troseddau rhywiol a threisgar yn erbyn puteiniaid yn yr un modd ag y maent yn trin troseddau casineb; mae hyn wedi atgyfnerthu'r neges y bydd cyhuddiadau a wneir gan y rhai sy'n ymwneud â phuteindra yn cael eu trin yn ddifrifol a'u hymchwilio fel blaenoriaeth.

Penodwyd nifer o ISVAau arbenigol i gefnogi gweithwyr rhyw sy'n wynebu camdriniaeth rywiol.

**ISVAau arbenigol**

Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, roedd gyrrwr tacsi wedi treisio pump o buteiniaid dros gyfnod o bum mlynedd. Darparwyd cefnogaeth i ddioddefwyr trwy brosiect sector gwirfoddol lleol, gyda'r ISVA arbenigol gweithiwr rhyw yn y llys gyda'r dioddefwyr am dair wythnos. Cafwyd y diffynnydd yn euog a'i ddedfrydu i naw mlynedd o garchar.

Mewn achos arall yn Llundain pan gafodd dioddefwyr gweithwyr iechyd eu cefnogi gan ISVAau arbenigol, roedd y diffynnydd wedi targedu puteiniaid a menywod ar eu pennau eu hunain yn benodol. Fe'i cafwyd yn euog o dreisio, camdriniaeth rywiol ddifrifol a herwgipio a'i ddedfrydu i 22 mlynedd o garchar.

# Pornograffi ac anweddustra

Yn 2011-12 bu peth gostyngiad yn yr erlyniadau am gamddefnyddio rhywiol ar blant trwy luniau, ond cafwyd cynnydd mewn erlyniadau am feddiant o ddelwedd waharddedig o blentyn. Mae Tabl 12 yn amlinellu data CPS ar droseddau delweddau camdriniaeth plant yn gyffredinol[55].

**Tabl 12: Troseddau camdriniaeth plant trwy ddelweddau**

| | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (160) – Meddu ar ffotograff anweddus o blentyn | 3,079 | 4,241 | 4,117 | 4,543 | 3,885 |
| Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (62) – Meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn [56] | 0 | 0 | 0 | 21 | 179 |
| **Ecsbloetio plant yn rhywiol trwy ffotograffau yr oedd:** | **11,873** | **14,656** | **14,595** | **16,851**[57] | **15,599** |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(a)) – Gwneud ffotograff anweddus o blentyn | 10,832 | 13,454 | 13,652 | 15,768 | 14,570 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(b)) – Dosbarthu ffotograff anweddus o blentyn | 678 | 931 | 804 | 670 | 695 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(c)) – Dangos ffotograffau anweddus o blant | 345 | 258 | 137 | 410 | 333 |
| ▪ Deddf Amddiffyn 1978 (1(1)(d)) – cyhoeddi hysbyseb sy'n debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu'n dangos ffotograffau anweddus o blant | 18 | 13 | 2 | 3 | 1 |

Yn ystod 2011-12, erlynwyd nifer o droseddau pornograffi ac eraill a chyrhaeddodd o leiaf un gwrandawiad mewn Llysoedd Ynadon dan nifer o Ddeddfau[58]. Mae cofnodion y CPS yn nodi faint o achosion a gychwynnwyd dan y ddeddfwriaeth hon, ond heb wahaniaethu rhwng 'cyfathrebiadau'n ymwneud â phornograffi' ar y naill law a'r rheiny nad ydynt ar y llaw arall.

---

[55] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd yn y Bydysawd Troseddau yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd. Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro, ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

[56] Dan Adran 62 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ('y Ddeddf') crëwyd trosedd newydd, sef meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn, un y mae modd ei chosbi gyda hyd at dair blynedd o garchar. Daeth y drosedd hon i rym ar 6 Ebrill 2010.

[57] Nodwyd gwallau cofnodi yn CMS yn ystod cyfnod 2010-11, felly mae data a adroddwyd yn adroddiad troseddau VAWG 2010-11 wedi ei gywiro yn yr adroddiad hwn

[58] Deddf Amddiffyn Plant 1978; Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959; Deddf Cyfathrebu Faleisus 1988; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf (Rheoli) Arddangosiadau Cyhoeddus Anweddus 1981; Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a Deddf Cyfathrebu 2003.

**Cartwnau o gam-drin plant**

Derbyniodd diffynnydd ddedfryd ohiriedig o chwe mis gyda dwy flynedd o oruchwyliaeth, gan ei orchymyn i gyflawni rhaglen triniaeth troseddwr rhyw a'i osod ar y gofrestr troseddwyr rhyw am saith mlynedd am wneud a meddianni mwy na 2,500 o luniau anweddus, pornograffi eithafol a delweddau gwaharddedig. Roedd yn un o'r cyntaf yn y Deyrnas Unedig i'w erlyn am gael casgliad o ddelweddau cam-drin plant ar ffurf cartwnau.

Mae Tabl 13 yn amlinellu data CPS[59] ar droseddau anweddustra[60]. Heb fawr o syndod, gyda'r cynnydd mewn defnydd o dechnoleg a'r rhyngrwyd, cafwyd gostyngiad mewn erlyniadau dan y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus ar gyfer cyhoeddiadau anweddus dros y blynyddoedd diwethaf a chynnydd cyfatebol mewn erlyniad o droseddau dan adran 127 y Ddeddf Cyfathrebu[61] ac adran 1 y Ddeddf Cyfathrebu Faleisus 1988[62].

Cafwyd cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf yn y nifer o erlyniadau dan yr adrannau newydd, a gyflwynwyd yn Ionawr 2009, yn ymwneud â delweddau pornograffig eithafol, yn cyrraedd 1,319 yn 2011-12.

---

[59] Gweler troednodyn 57

[60] Mae Deddfau Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959 a 1964 yn nodi beth yw'r gyfraith yng nghyswllt cyhoeddiadau anweddus. Sefydlir y prawf am anweddustra yn adran 1(1) Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959. Mae'r troseddau'n cael eu creu dan adran 2 OPA 1959 ac mae modd cosbi gyda charchariad am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Mae pob deunydd cyhoeddedig yn atebol i'r Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959. Dan y Ddeddf hon mae'n drosedd droseddol cyhoeddi unrhyw erthygl y credir ei bod yn anweddus; sef erthygl y tybia'r llysoedd ei bod yn tueddu i 'lygru' unigolyn sy'n debygol o'i gweld, ei chlywed neu ei darllen. Mae adrannau 63 i 67 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i feddiannu delweddau pornograffig sy'n dangos gweithred sy'n bygwth bywyd rhywun, gweithredoedd sy'n arwain at neu'n debygol o arwain at anaf difrifol i anws, bronnau neu organau cenhedlu rhywun, bwbechni neu gorffgarwch; maent hefyd yn darparu ar gyfer eithrio ffilmiau wedi eu dosbarthu ac ati ac yn sefydlu amddiffyniadau a chosbau ar gyfer y drosedd. Daeth y drosedd hon i rym ar 26 Ionawr 2009.

[61] Mae Adran 127 Deddf Cyfathrebu 2003 yn creu trosedd o anfon, 'trwy rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus, neges neu fater sy'n ffiaidd iawn neu o gymeriad anweddus, aflan neu fygythiol.' Gellir cymhwyso'r drosedd i'r "cyfryngau ehangach" ac mae ganddi elfen o "gyfrededd", hyd yn oed "amddiffyniad i'r dyfodol" nad ydynt yn nhermau mwy rhagnodol deddfwriaeth arall.

[62] Mae'r Ddeddf Cyfathrebu Faleisus yn troseddoli anfon llythyr, cyfathrebiad electronig [h.y. e-bost] neu eitem arall anweddus, aflan neu fygythiol i rywun arall.

**Tabl 13: Troseddau anweddustra**

| | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfathrebu Faleisus 1988 Adrannau (1 (1)(a) & (1)(b)) - Deunydd anweddus neu dramgwyddus iawn | 566 | 791 | 899 | 1,273 | 1,301 |
| Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959 (2 (1) ) – Cyhoeddiadau anweddus | 111 | 152 | 82 | 71 | 76 |
| Deddf Cyfathrebu 2003 (127 (1)(a), (1)(b) & (3))Cyfathrebiadau tramgwyddus neu anweddus iawn | 1,037 | 1,278 | 1,315 | 1,869 | 1,924 |
| Deddf Cyfathrebu 2003 (127 (2)(a), (2)(b), (2)(c) a (3)) - Achosi blinder, anhwylustod neu bryder diangen i unigolyn arall. | 568 | 659 | 888 | 1,037 | 1,181 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (63 (1), (7)(d) a 67(3)) – Meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol[63] | 0 | 2 | 270 | 1,165 | 1,319 |

**Estraddodiad**

Cafwyd diffynnydd yn euog ar 21 cyhuddiad o feddiannu, creu a dosbarthu delweddau anweddus o blant. Ef oedd y cyntaf i gael ei estraddodi o China i'r Deyrnas Unedig wedi iddo ffoi dan fechnïaeth ar basbort ffug. Fe'i dedfrydwyd i saith mlynedd a hanner o garchar yn Ionawr 2012.

Mae Pornograffi ac Anweddustra yn faes o seiber droseddau sy'n cynyddu. Gan gydnabod hyn, datblygwyd modwl e-ddysgu seiber stelcio newydd. Mae'r nifer o erlyniadau yn awgrymu y bydd y rhan fwyaf o erlynwyr yn delio â seiber droseddau yn ystod y flwyddyn.

I ymestyn sylfaen gwybodaeth erlynwyr mewn achosion o ddelweddau anweddus o blant ac anweddustra, rydym wedi datblygu model e-ddysgu newydd ar "Ddelweddau Rhywiol Gwaharddedig". Mae'n delio â deddfwriaeth allweddol yn ymwneud â delweddau anweddus o blant; meddiant o ddelwedd waharddedig o blentyn; anweddustra a phornograffi eithafol.

**Seiber stelcio**

Yn dilyn canllaw newydd ar seiber stelcio, erlynwyd achos yn llwyddiannus yn ymwneud â diffynnydd yn aflonyddu ar ei gyn bartner trwy gyhoeddi lluniau personol ohoni ar Facebook, wedi eu tagio i hysbysu ffrindiau a theulu'r dioddefydd. Fe'i dedfrydwyd i bedwar mis o garchar a gorchymyn ataliol pum mlynedd.

[63] Dim ond isadran o ddata adran 63 a adroddwyd arno mewn Adroddiadau Troseddau VAWG blaenorol - mae data wedi ei addasu yn yr adroddiad hwn i gynnwys pob trosedd dan Adran 63.

| Trais yn erbyn menywod a merched | Erlyniadau CPS 2011 - 2012 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 o Ardaloedd** | **66,860** | **73.1%** | **24,606** | **26.9%** | **91,466** |
| **Cymru** | **4,596** | **74.8%** | **1,547** | **25.2%** | **6,143** |
| Dyfed Powys | 422 | 76.9% | 127 | 23.1% | **549** |
| Gwent | 1,049 | 78.4% | 289 | 21.6% | **1,338** |
| Gogledd | 985 | 75.0% | 329 | 25.0% | **1,314** |
| De Cymru | 2,140 | 72.7% | 802 | 27.3% | **2,942** |
| **Dwyrain Lloegr** | **5,110** | **81.8%** | **1,134** | **18.2%** | **6,244** |
| Swydd Gaergrawnt | 883 | 76.3% | 274 | 23.7% | **1,157** |
| Essex | 2,120 | 83.3% | 425 | 16.7% | **2,545** |
| Norfolk | 1,117 | 80.5% | 270 | 19.5% | **1,387** |
| Suffolk | 990 | 85.7% | 165 | 14.3% | **1,155** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | **5,532** | **74.6%** | **1,881** | **25.4%** | **7,413** |
| Swydd Derby | 1,409 | 75.0% | 469 | 25.0% | **1,878** |
| Swydd Gaerlŷr | 1,134 | 76.2% | 355 | 23.8% | **1,489** |
| Swydd Lincoln | 626 | 76.4% | 193 | 23.6% | **819** |
| Swydd Northampton | 684 | 71.3% | 275 | 28.7% | **959** |
| Swydd Nottingham | 1,679 | 74.0% | 589 | 26.0% | **2,268** |
| **Llundain** | **7,703** | **63.1%** | **4,502** | **36.9%** | **12,205** |
| **Glannau Mersi a Swydd Gaer** | **2,666** | **76.4%** | **823** | **23.6%** | **3,489** |
| Swydd Gaer | 993 | 79.7% | 253 | 20.3% | **1,246** |
| Glannau Mersi | 1,673 | 74.6% | 570 | 25.4% | **2,243** |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | **4,186** | **74.0%** | **1,472** | **26.0%** | **5,658** |
| Cleveland | 992 | 71.0% | 405 | 29.0% | **1,397** |
| Durham | 972 | 77.6% | 280 | 22.4% | **1,252** |
| Northumbria | 2,222 | 73.8% | 787 | 26.2% | **3,009** |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | **10,073** | **74.2%** | **3,507** | **25.8%** | **13,580** |
| Cumbria | 659 | 82.3% | 142 | 17.7% | **801** |
| Manceinion Fwyaf | 5,307 | 74.4% | 1,826 | 25.6% | **7,133** |
| Swydd Gaerhirfryn | 4,107 | 72.7% | 1,539 | 27.3% | **5,646** |
| **De Ddwyrain Lloegr** | **3,634** | **76.2%** | **1,136** | **23.8%** | **4,770** |
| Caint | 1,605 | 77.0% | 480 | 23.0% | **2,085** |
| Surrey | 485 | 76.4% | 150 | 23.6% | **635** |
| Sussex | 1,544 | 75.3% | 506 | 24.7% | **2,050** |
| **De Orllewin Lloegr** | **4,011** | **76.5%** | **1,231** | **23.5%** | **5,242** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 2,093 | 77.2% | 617 | 22.8% | **2,710** |
| Dyfnaint a Chernyw | 1,461 | 74.4% | 504 | 25.6% | **1,965** |
| Swydd Gaerloyw | 457 | 80.6% | 110 | 19.4% | **567** |
| **Tafwys a Chiltern** | **3,327** | **71.2%** | **1,347** | **28.8%** | **4,674** |
| Swydd Bedford | 536 | 70.3% | 226 | 29.7% | **762** |
| Swydd Hertford | 957 | 76.7% | 290 | 23.3% | **1,247** |
| Dyffryn Tafwys | 1,834 | 68.8% | 831 | 31.2% | **2,665** |
| **Wessex** | **3,497** | **70.6%** | **1,456** | **29.4%** | **4,953** |
| Dorset | 689 | 71.0% | 281 | 29.0% | **970** |
| Hampshire ac Ynys Wyth | 2,248 | 69.8% | 973 | 30.2% | **3,221** |
| Wiltshire | 560 | 73.5% | 202 | 26.5% | **762** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | **6,049** | **73.1%** | **2,230** | **26.9%** | **8,279** |
| Swydd Stafford | 1,285 | 74.1% | 448 | 25.9% | **1,733** |
| Swydd Warwick | 325 | 78.9% | 87 | 21.1% | **412** |
| Gorllewin Mersia | 1,215 | 76.9% | 366 | 23.1% | **1,581** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 3,224 | 70.8% | 1,329 | 29.2% | **4,553** |
| **Swydd Efrog a Swydd Humber** | **6,476** | **73.5%** | **2,340** | **26.5%** | **8,816** |
| Glannau Humber | 1,365 | 80.9% | 322 | 19.1% | **1,687** |
| Gogledd Swydd Efrog | 556 | 74.6% | 189 | 25.4% | **745** |
| De Swydd Efrog | 1,288 | 73.3% | 468 | 26.7% | **1,756** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 3,267 | 70.6% | 1,361 | 29.4% | **4,628** |

| Trais domestig | Erlyniadau CPS 2011 - 2012 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 o Ardaloedd** | **58,138** | **73.3%** | **21,130** | **26.7%** | **79,268** |
| **Cymru** | **4,113** | **75.6%** | **1,324** | **24.4%** | **5,437** |
| Dyfed Powys | 338 | 77.9% | 96 | 22.1% | **434** |
| Gwent | 939 | 78.6% | 256 | 21.4% | **1,195** |
| Gogledd | 897 | 76.0% | 284 | 24.0% | **1,181** |
| De Cymru | 1,939 | 73.8% | 688 | 26.2% | **2,627** |
| **Dwyrain Lloegr** | **4,551** | **82.7%** | **952** | **17.3%** | **5,503** |
| Swydd Gaergrawnt | 766 | 76.7% | 233 | 23.3% | **999** |
| Essex | 1,929 | 84.0% | 367 | 16.0% | **2,296** |
| Norfolk | 963 | 81.3% | 222 | 18.7% | **1,185** |
| Suffolk | 893 | 87.3% | 130 | 12.7% | **1,023** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | **4,795** | **74.5%** | **1,642** | **25.5%** | **6,437** |
| Swydd Derby | 1,225 | 75.4% | 400 | 24.6% | **1,625** |
| Swydd Gaerlŷr | 949 | 75.1% | 315 | 24.9% | **1,264** |
| Swydd Lincoln | 548 | 77.0% | 164 | 23.0% | **712** |
| Swydd Northampton | 555 | 71.0% | 227 | 29.0% | **782** |
| Swydd Nottingham | 1,518 | 73.9% | 536 | 26.1% | **2,054** |
| **Llundain** | **6,326** | **62.7%** | **3,769** | **37.3%** | **10,095** |
| **Glannau Mersi a Swydd Gaer** | **2,346** | **77.1%** | **698** | **22.9%** | **3,044** |
| Swydd Gaer | 878 | 79.6% | 225 | 20.4% | **1,103** |
| Glannau Mersi | 1,468 | 75.6% | 473 | 24.4% | **1,941** |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | **3,697** | **74.6%** | **1,259** | **25.4%** | **4,956** |
| Cleveland | 828 | 70.5% | 346 | 29.5% | **1,174** |
| Durham | 854 | 80.0% | 213 | 20.0% | **1,067** |
| Northumbria | 2,015 | 74.2% | 700 | 25.8% | **2,715** |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | **9,082** | **74.2%** | **3,165** | **25.8%** | **12,247** |
| Cumbria | 559 | 82.4% | 119 | 17.6% | **678** |
| Manceinion Fwyaf | 4,801 | 74.8% | 1,618 | 25.2% | **6,419** |
| Swydd Gaerhirfryn | 3,722 | 72.3% | 1,428 | 27.7% | **5,150** |
| **De Ddwyrain Lloegr** | **3,007** | **77.0%** | **896** | **23.0%** | **3,903** |
| Caint | 1,298 | 77.8% | 371 | 22.2% | **1,669** |
| Surrey | 379 | 77.5% | 110 | 22.5% | **489** |
| Sussex | 1,330 | 76.2% | 415 | 23.8% | **1,745** |
| **De Orllewin Lloegr** | **3,439** | **76.5%** | **1,054** | **23.5%** | **4,493** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 1,799 | 77.7% | 516 | 22.3% | **2,315** |
| Dyfnaint a Chernyw | 1,263 | 73.8% | 449 | 26.2% | **1,712** |
| Swydd Gaerloyw | 377 | 80.9% | 89 | 19.1% | **466** |
| **Tafwys a Chiltern** | **2,943** | **72.1%** | **1,141** | **27.9%** | **4,084** |
| Swydd Bedford | 467 | 69.7% | 203 | 30.3% | **670** |
| Swydd Hertford | 889 | 77.6% | 256 | 22.4% | **1,145** |
| Dyffryn Tafwys | 1,587 | 69.9% | 682 | 30.1% | **2,269** |
| **Wessex** | **3,030** | **70.6%** | **1,263** | **29.4%** | **4,293** |
| Dorset | 605 | 70.6% | 252 | 29.4% | **857** |
| Hampshire ac Ynys Wyth | 1,949 | 70.1% | 831 | 29.9% | **2,780** |
| Wiltshire | 476 | 72.6% | 180 | 27.4% | **656** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | **5,141** | **72.7%** | **1,934** | **27.3%** | **7,075** |
| Swydd Stafford | 1,087 | 73.3% | 395 | 26.7% | **1,482** |
| Swydd Warwick | 274 | 80.6% | 66 | 19.4% | **340** |
| Gorllewin Mersia | 1,012 | 77.3% | 297 | 22.7% | **1,309** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 2,768 | 70.2% | 1,176 | 29.8% | **3,944** |
| **Swydd Efrog a Swydd Humber** | **5,668** | **73.6%** | **2,033** | **26.4%** | **7,701** |
| Glannau Humber | 1,145 | 82.6% | 242 | 17.4% | **1,387** |
| Gogledd Swydd Efrog | 458 | 74.6% | 156 | 25.4% | **614** |
| De Swydd Efrog | 1,139 | 73.9% | 403 | 26.1% | **1,542** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 2,926 | 70.4% | 1,232 | 29.6% | **4,158** |

| Treisio | Erlyniadau CPS 2011 - 2012 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 o Ardaloedd** | **2,414** | **62.5%** | **1,450** | **37.5%** | **3,864** |
| **Cymru** | **140** | **62.5%** | **84** | **37.5%** | **224** |
| Dyfed Powys | 18 | 64.3% | 10 | 35.7% | **28** |
| Gwent | 36 | 72.0% | 14 | 28.0% | **50** |
| Gogledd | 29 | 59.2% | 20 | 40.8% | **49** |
| De Cymru | 57 | 58.8% | 40 | 41.2% | **97** |
| **Dwyrain Lloegr** | **165** | **69.0%** | **74** | **31.0%** | **239** |
| Swydd Gaergrawnt | 28 | 66.7% | 14 | 33.3% | **42** |
| Essex | 67 | 75.3% | 22 | 24.7% | **89** |
| Norfolk | 41 | 62.1% | 25 | 37.9% | **66** |
| Suffolk | 29 | 69.0% | 13 | 31.0% | **42** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | **208** | **66.9%** | **103** | **33.1%** | **311** |
| Swydd Derby | 60 | 61.2% | 38 | 38.8% | **98** |
| Swydd Gaerlŷr | 44 | 78.6% | 12 | 21.4% | **56** |
| Swydd Lincoln | 13 | 54.2% | 11 | 45.8% | **24** |
| Swydd Northampton | 51 | 68.0% | 24 | 32.0% | **75** |
| Swydd Nottingham | 40 | 69.0% | 18 | 31.0% | **58** |
| **Llundain** | **370** | **55.4%** | **298** | **44.6%** | **668** |
| **Glannau Mersi a Swydd Gaer** | **77** | **57.0%** | **58** | **43.0%** | **135** |
| Swydd Gaer | 26 | 59.1% | 18 | 40.9% | **44** |
| Glannau Mersi | 51 | 56.0% | 40 | 44.0% | **91** |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | **128** | **56.4%** | **99** | **43.6%** | **227** |
| Cleveland | 33 | 54.1% | 28 | 45.9% | **61** |
| Durham | 48 | 63.2% | 28 | 36.8% | **76** |
| Northumbria | 47 | 52.2% | 43 | 47.8% | **90** |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | **288** | **62.7%** | **171** | **37.3%** | **459** |
| Cumbria | 27 | 81.8% | 6 | 18.2% | **33** |
| Manceinion Fwyaf | 169 | 58.3% | 121 | 41.7% | **290** |
| Swydd Gaerhirfryn | 92 | 67.6% | 44 | 32.4% | **136** |
| **De Ddwyrain Lloegr** | **177** | **63.9%** | **100** | **36.1%** | **277** |
| Caint | 78 | 64.5% | 43 | 35.5% | **121** |
| Surrey | 30 | 62.5% | 18 | 37.5% | **48** |
| Sussex | 69 | 63.9% | 39 | 36.1% | **108** |
| **De Orllewin Lloegr** | **175** | **68.1%** | **82** | **31.9%** | **257** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 91 | 65.5% | 48 | 34.5% | **139** |
| Dyfnaint a Chernyw | 63 | 71.6% | 25 | 28.4% | **88** |
| Swydd Gaerloyw | 21 | 70.0% | 9 | 30.0% | **30** |
| **Tafwys a Chiltern** | **125** | **61.6%** | **78** | **38.4%** | **203** |
| Swydd Bedford | 14 | 73.7% | 5 | 26.3% | **19** |
| Swydd Hertford | 18 | 60.0% | 12 | 40.0% | **30** |
| Dyffryn Tafwys | 93 | 60.4% | 61 | 39.6% | **154** |
| **Wessex** | **110** | **68.3%** | **51** | **31.7%** | **161** |
| Dorset | 12 | 70.6% | 5 | 29.4% | **17** |
| Hampshire ac Ynys Wyth | 68 | 64.2% | 38 | 35.8% | **106** |
| Wiltshire | 30 | 78.9% | 8 | 21.1% | **38** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | **200** | **61.9%** | **123** | **38.1%** | **323** |
| Swydd Stafford | 41 | 70.7% | 17 | 29.3% | **58** |
| Swydd Warwick | 12 | 54.5% | 10 | 45.5% | **22** |
| Gorllewin Mersia | 38 | 54.3% | 32 | 45.7% | **70** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 109 | 63.0% | 64 | 37.0% | **173** |
| **Swydd Efrog a Swydd Humber** | **251** | **66.1%** | **129** | **33.9%** | **380** |
| Glannau Humber | 88 | 72.7% | 33 | 27.3% | **121** |
| Gogledd Swydd Efrog | 24 | 66.7% | 12 | 33.3% | **36** |
| De Swydd Efrog | 47 | 63.5% | 27 | 36.5% | **74** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 92 | 61.7% | 57 | 38.3% | **149** |

| Troseddau rhywiol ac eithrio treisio | Erlyniadau CPS 2011 - 2012 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 o Ardaloedd** | **6,308** | **75.7%** | **2,026** | **24.3%** | **8,334** |
| **Cymru** | **343** | **71.2%** | **139** | **28.8%** | **482** |
| Dyfed Powys | 66 | 75.9% | 21 | 24.1% | **87** |
| Gwent | 74 | 79.6% | 19 | 20.4% | **93** |
| Gogledd | 59 | 70.2% | 25 | 29.8% | **84** |
| De Cymru | 144 | 66.1% | 74 | 33.9% | **218** |
| **Dwyrain Lloegr** | **394** | **78.5%** | **108** | **21.5%** | **502** |
| Swydd Gaergrawnt | 89 | 76.7% | 27 | 23.3% | **116** |
| Essex | 124 | 77.5% | 36 | 22.5% | **160** |
| Norfolk | 113 | 83.1% | 23 | 16.9% | **136** |
| Suffolk | 68 | 75.6% | 22 | 24.4% | **90** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | **529** | **79.5%** | **136** | **20.5%** | **665** |
| Swydd Derby | 124 | 80.0% | 31 | 20.0% | **155** |
| Swydd Gaerlŷr | 141 | 83.4% | 28 | 16.6% | **169** |
| Swydd Lincoln | 65 | 78.3% | 18 | 21.7% | **83** |
| Swydd Northampton | 78 | 76.5% | 24 | 23.5% | **102** |
| Swydd Nottingham | 121 | 77.6% | 35 | 22.4% | **156** |
| **Llundain** | **1,007** | **69.8%** | **435** | **30.2%** | **1,442** |
| **Glannau Mersi a Swydd Gaer** | **243** | **78.4%** | **67** | **21.6%** | **310** |
| Swydd Gaer | 89 | 89.9% | 10 | 10.1% | **99** |
| Glannau Mersi | 154 | 73.0% | 57 | 27.0% | **211** |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | **361** | **76.0%** | **114** | **24.0%** | **475** |
| Cleveland | 131 | 80.9% | 31 | 19.1% | **162** |
| Durham | 70 | 64.2% | 39 | 35.8% | **109** |
| Northumbria | 160 | 78.4% | 44 | 21.6% | **204** |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | **703** | **80.4%** | **171** | **19.6%** | **874** |
| Cumbria | 73 | 81.1% | 17 | 18.9% | **90** |
| Manceinion Fwyaf | 337 | 79.5% | 87 | 20.5% | **424** |
| Swydd Gaerhirfryn | 293 | 81.4% | 67 | 18.6% | **360** |
| **De Ddwyrain Lloegr** | **450** | **76.3%** | **140** | **23.7%** | **590** |
| Caint | 229 | 77.6% | 66 | 22.4% | **295** |
| Surrey | 76 | 77.6% | 22 | 22.4% | **98** |
| Sussex | 145 | 73.6% | 52 | 26.4% | **197** |
| **De Orllewin Lloegr** | **397** | **80.7%** | **95** | **19.3%** | **492** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 203 | 79.3% | 53 | 20.7% | **256** |
| Dyfnaint a Chernyw | 135 | 81.8% | 30 | 18.2% | **165** |
| Swydd Gaerloyw | 59 | 83.1% | 12 | 16.9% | **71** |
| **Tafwys a Chiltern** | **259** | **66.9%** | **128** | **33.1%** | **387** |
| Swydd Bedford | 55 | 75.3% | 18 | 24.7% | **73** |
| Swydd Hertford | 50 | 69.4% | 22 | 30.6% | **72** |
| Dyffryn Tafwys | 154 | 63.6% | 88 | 36.4% | **242** |
| **Wessex** | **357** | **71.5%** | **142** | **28.5%** | **499** |
| Dorset | 72 | 75.0% | 24 | 25.0% | **96** |
| Hampshire ac Ynys Wyth | 231 | 69.0% | 104 | 31.0% | **335** |
| Wiltshire | 54 | 79.4% | 14 | 20.6% | **68** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | **708** | **80.4%** | **173** | **19.6%** | **881** |
| Swydd Stafford | 157 | 81.3% | 36 | 18.7% | **193** |
| Swydd Warwick | 39 | 78.0% | 11 | 22.0% | **50** |
| Gorllewin Mersia | 165 | 81.7% | 37 | 18.3% | **202** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 347 | 79.6% | 89 | 20.4% | **436** |
| **Swydd Efrog a Swydd Humber** | **557** | **75.8%** | **178** | **24.2%** | **735** |
| Glannau Humber | 132 | 73.7% | 47 | 26.3% | **179** |
| Gogledd Swydd Efrog | 74 | 77.9% | 21 | 22.1% | **95** |
| De Swydd Efrog | 102 | 72.9% | 38 | 27.1% | **140** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 249 | 77.6% | 72 | 22.4% | **321** |

# Rhestr termau

## Ffrydiau trais yn erbyn menywod a merched

**Mae pob adran yn nhrefn yr wyddor oni nodir fel arall.**

Camdriniaeth plant: Unrhyw drosedd droseddol sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf a welir yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant ac sy'n ymwneud â dioddefwr dan 18 oed.

Mae camdriniaeth plant yn cynnwys troseddau troseddol – boed yn gorfforol, emosiynol neu rywiol - yn ogystal ag esgeuluso plentyn. Buasai achosion o'r fath fel arfer yn cynnwys, er enghraifft:

- ymosodiad gan riant pan fo cerydd rhesymol ddim yn amddiffyniad;
- troseddau rhywiol;
- lladdiad plant;
- creulondeb yn erbyn plentyn, gan gynnwys esgeulustod;
- puteindra plant;
- aflonyddu;
- cefnu ar blentyn/blant;
- priodas dan orfod yn cynnwys un dan 18 oed;
- pornograffi plant;
- plant sy'n cael eu masnachu;
- cipio teuluol; a
- camdriniaeth plant hanesyddol a'r dioddefwr bellach yn oedolyn.

Mae'r achosion na chaent, fel arfer, eu llumanu yn cynnwys:

- troseddau moduro pan fo'r plentyn wedi ei anafu neu wedi'i ladd;
- esgeulustod meddygol; a
- throseddau eiddo.

Trais domestig: unrhyw ddigwyddiad neu ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng y rheiny [64] sydd neu a fu'n bartneriaid agos neu'n aelodau teulu, waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb. Mae aelodau teulu'n cynnwys mam, tad, mab, merch, chwaer, a thaid a nain, p'un a ydynt yn berthynas uniongyrchol, yn deulu yng nghyfraith neu'n lysdeulu.

[64] Yn y CPS bydd achosion yn cael eu monitro ar gyfer oedolion a'r rhai dan 18.

| | |
|---|---|
| Priodas dan orfod: | Bydd unrhyw drosedd droseddol o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd yng nghyd-destun priodas dan orfod yn cael ei llumanu felly un ai:<br>• i orfodi parti/partïon i briodi heb eu caniatâd, a fuasai'n cael ei erlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. aflonyddu, cipio, bygwth lladd; neu<br>• ar ôl priodas dan orfod heb ganiatâd un neu'r ddau barti a lle mae gorfodaeth yn ffactor, a fuasai unwaith eto yn cael ei erlyn am y drosedd benodol e.e. treisio, ymosodiad rhywiol.<br>Bydd y diffiniad o briodas dan orfod i'w ddefnyddio yn unol â'r hyn a ddefnyddir gan y Swyddfa Gartref: *'Priodas heb gydsyniad un neu ddau o'r partïon ble mae gorfodaeth yn ffactor'.*<br>Cafwyd eglurhad Y Llys Apêl ar orfodaeth, sef: '[pan fo] meddwl yr ymgeisydd wedi'i lethu, sut bynnag yr achoswyd hynny'. Mae priodas a drefnwyd yn wahanol iawn i briodas dan orfod. Mae'r ddau unigolyn yn mynd, yn rhydd, i briodas a drefnwyd, er bod eu teuluoedd yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses o ddewis partner. |
| Trais yn seiliedig ar anrhydedd: | Bydd unrhyw drosedd droseddol o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd felly ac a elwir yn drosedd anrhydedd yn cael ei llumanu fel trais yn seiliedig ar anrhydedd. Byddai achosion yn cael eu herlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. ymosodiad cyffredin, GBH, aflonyddu, herwgipio, treisio, bygythiad i ladd, llofruddiaeth.<br><br>Y diffiniad o drais seiliedig ar urddas i'w ddefnyddio yw'r diffiniad a fabwysiadwyd gan yr Uned Priodas dan Orfod yn y Swyddfa Gartref: "Mae'r hyn a elwir yn drais seiliedig ar urddas yn drosedd neu ddigwyddiad, sydd wedi neu a allai fod wedi ei gyflawni i ddiogelu neu amddiffyn urddas y teulu ac/neu gymuned". |
| Masnachu mewn pobl: | Defnyddir y faner masnachu mewn pobl yn achos:<br>• Troseddau a lumanir yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59),<br>• Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth o Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3); a'r<br>• Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 Adran 71<br>Gosodir y faner ar gychwyn yr achos; bydd y faner hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu |

gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylid gosod baner ar y cam hwnnw.

Treisio: unrhyw ddiffynnydd sy'n cael ei gyhuddo o un neu fwy o'r troseddau canlynol -

- S1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
- S5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
    - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod o dan y Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu 1981
- S1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- S5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- S30(3) Troseddau Rhywiol act 2003
    - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod o dan y Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu1981

Ysgogi neu gynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod

Troseddau rhywiol ac eithrio treisio: unrhyw ddiffynnydd y mae categori ei brif drosedd, ar adeg ei chwblhau, yn drosedd rywiol ac eithrio treisio.

## Termau rheoli perfformiad

**Llumanau Monitro:** mae mathau sensitif o achosion wedi'u dynodi gan nifer o faneri monitro, a'u defnyddio gydag achosion priodol yn ystod y cam cyn cyhuddo. Mae'r baneri'n caniatáu i reolwyr fonitro'r achosion yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ganlyniadau yn dilyn diwedd yr achos.

**Prif droseddau:** Categori prif drosedd: bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd. Mae'r Categori Prif Drosedd yn dangos y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddwyd y diffynnydd ohoni **adeg cwblhau.** Pan fo natur y cyhuddiadau'n newid yn ystod oes yr achos, efallai y bydd y Brif Drosedd adeg cwblhau yn wahanol i'r hyn a ymddangosai'n briodol ar adeg flaenorol yn y camau. Yn yr holl achosion o'r fath, y categori Prif Drosedd a gofnodir yw'r un sy'n berthnasol **adeg cwblhau**, p'un a yw'n fwy difrifol neu'n llai difrifol na'r hyn oedd yn berthnasol ynghynt yn oes yr achos.

Pan fo diffynnydd yn wynebu nifer o gyhuddiadau dan wahanol Gategorïau Prif Drosedd, dewis yr un fwyaf difrifol **yn ôl y drefn flaenoriaeth a ganlyn:**

Lladdiad: Mae 'Lladdiad' yn cynnwys nifer o droseddau a chan gynnwys – llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio, bygwth lladd, lladdiad, cynllwynio neu gymell i gyflawni llofruddiaeth ac achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus.

Troseddau yn erbyn yr unigolyn: Mae 'Troseddau yn erbyn yr unigolyn' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys – niwed corfforol difrifol, ymosodiad gan achosi niwed corfforol gwirioneddol, ymosodiad cyffredin, meddiannu dryll gyda'r bwriad o achosi ofn trais a chipio plentyn.

Troseddau rhywiol: Mae 'Troseddau Rhywiol' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys - treisio, sodomiaeth, ymosodiad rhywiol, deuwriaeth/dwywreiciaeth, caffael ac anweddustra difrifol gyda phlentyn.

Difrod troseddol: Mae 'Difrod troseddol' yn cynnwys troseddau megis llosgi bwriadol, difrod troseddol neu faleisus, a llosgi bwriadol neu ddifrod troseddol sy'n peryglu bywyd.

Troseddau trefn gyhoeddus: Mae 'Troseddau Trefn Gyhoeddus' yn cynnwys terfysg, anhrefn treisgar neu achosi ffrwgwd.

## Deilliannau achosion

**Penderfyniadau cyn cyhuddo**: Mae Canllaw'r Cyfarwyddwr ar gyhuddo (4ydd Rhifyn) yn datgan y gall yr heddlu gyhuddo unrhyw drosedd Crynodeb yn unig (un y gellir delio â hi yn y llys ynadon yn unig) waeth beth yw'r ple a throsedd naill ffordd neu'r llall (y gellir ei phrofi naill ai yn y llys ynadon neu Lys y Goron) ble rhagwelir ple euog a'i fod yn addas i ddedfryd yn y llys ynadon yn amodol i eithriadau penodol fel trais domestig, troseddau casineb ac achos yn ymwneud â marwolaeth. Rhaid i erlynwyr y CPS wneud y penderfyniadau cyhuddo ym mhob achos ditiadwy yn unig (yr achosion hynny na ellir eu profi yn unman ond yn Llys y Goron yn unig), troseddau naill ffordd neu'r llall nad ydynt yn addas ar gyfer y llys ynadon a ble na ragwelir ple euog

Pob penderfyniad arall: ble rhoddir rhybudd, cerydd neu rybudd terfynol; ble cafodd y drosedd ei hystyried mewn perthynas â chyhuddiadau eraill; neu lle methodd y diffynnydd ateb i fechnïaeth a bod gwarant wedi'i chyflwyno.

| | |
|---|---|
| Wedi'i gyhuddo: | achosion lle penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo. |
| Dim erlyniad: | achosion lle bydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd. |
| Cais am dystiolaeth bellach: | ble gwneir cais am ragor o wybodaeth neu weithredu, neu ble'r ystyrir hynny'n angenrheidiol. |
| **Erlyniadau**: | yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a gwblhawyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw. |
| <u>Deilliannau aflwyddiannus</u>: | yr holl erlyniadau a gwblhawyd ble na chafwyd y diffynnydd yn euog, sy'n cynnwys y canlynol: |
| Cwblhau gwaith gweinyddol: | pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw, neu nad yw'n ffit i bledio: neu lle bo achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae'n bosib yr ail-agorir yr achos. |
| Traddodebau a ryddhawyd: | achosion traddodi pan fo'r diffynnydd yn cael ei ryddhau. Yn dilyn rhyddhau, gellir ailgychwyn achos. |
| Diffyg parhad a thynnu'n ôl: | Gall ystyriaeth o'r dystiolaeth a budd y cyhoedd arwain at i'r CPS benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yma fe gynhwysir achosion a derfynir yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rhai ble na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth, a'r rhai a dynnir yn ôl yn y llys. Yma hefyd cynhwysir achosion lle cafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch. |
| Gwrthod ar ôl treial llawn: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad. |

| | |
|---|---|
| Barnwr yn cyfeirio at ryddfarnu: | achosion ble ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, gwneir argymhelliad llwyddiannus o ‘ddim achos’ neu ‘anniogel’ ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i’r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor. |
| Rhyddfarnu gan reithgor: | pan fydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor. |
| Dim achos i’w ateb: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog ac y gwrandewir tystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad. |
| Yr holl ddeilliannau aflwyddiannus eraill: | yn cynnwys terfyniadau gweinyddol, traddodebau a ryddhawyd, a dim achos i’w ateb. |

| | |
|---|---|
| <u>Euogfarnau:</u> | achosion lle ceir y diffynnydd yn euog yn dilyn erlyniad, sy’n cynnwys: |
| Euogfarn yn dilyn treial: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio’n ddieuog, ond yn cael ei ddyfarnu’n euog ar ôl gwrando’r dystiolaeth. |
| Ple euog: | lle bydd y diffynnydd yn pledio’n euog. |
| Prawf yn absenoldeb: | troseddau llai yw’r rhain a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd. |

**Rhesymau dros ddeilliannau aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Rhyddfarnau ar ôl yr achos: | mae’r diffynnydd yn ei gael yn ddieuog gan yr ynadon neu reithgor ar ôl gwrandawiad sy’n cael ei herio pan fo’r amddiffyniad yn cael ei alw i gyflwyno’i achos. |
| Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi’r achos: | nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y drosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ddeilliant aflwyddiannus, ond, serch hynny, nid yw’r dioddefwr wedi tynnu’n ôl. |

| | |
|---|---|
| Dioddefydd ddim yn mynychu: | gelwir y dioddefydd yn dyst mewn achos, ond bydd yn methu mynychu'r llys. |
| Dioddefydd yn tynnu'n ôl: | ble bo tystiolaeth y dioddefydd yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefydd yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl. |

# Rhestr acronymau

| | |
|---|---|
| ACPO | Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CEOP | Canolfan Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Diogelu Ar-lein |
| CJA | Deddf Cyfiawnder Troseddol |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CQSM | Monitro Safon Ansawdd Craidd |
| CSE | Camfanteisio'n rhywiol ar blant |
| DCV | Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr |
| DPP | Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus |
| TD | Trais domestig |
| EDU | Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| EDCEM | Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| ECG | Grŵp Ymgynghori Allanol |
| ESO | Gorchymyn Ymgysylltu a Chefnogaeth |
| EU | Undeb Ewropeaidd |
| FM | Priodas dan Orfod |
| FGM | Llurgunio Organau Rhywiol Menywod |
| HBV | Trais Seiliedig ar Urddas |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi |
| HO | Swyddfa Gartref |
| IDVA | Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol |
| ISVA | Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol |
| MARAC | Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| PHA | Deddf Atal Aflonyddu |
| PPT (ppt) | Pwynt Canrannol |
| PPU | Uned Diogelu'r Cyhoedd |
| RASSO | Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol |
| SDVC | Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais Domestig |
| SOA | Deddf Troseddau Rhywiol |
| SV | Trais rhywiol |
| LSIP | Paneli craffu lleol a chynhwysiant |
| WCU | Uned Gofal Tystion |
| WSC | Amodau Penodol i Fenywod |
| VAWG | Trais yn erbyn Menywod a Merched |
| VPS | Datganiad Personol y Dioddefydd |

**Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

**www.cps.gov.uk**

Hydref 2012